# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

## Adroddiad Blynyddol

2024/25

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

**Os hoffech gopi o'r ddogfen hon mewn fformat arall cysylltwch â / If you would like this document in another format contact:**

Jeśli chciał(a)by Pan(i) otrzymać ten dokument w języku polskim, prosimy o kontakt poprzez:

Jeigu jūs pageidaujate šį dokumentą gauti lietuvių kalba, prašome kreiptis:

Dacă doriți acest document în limba română, vă rugăm să contactați:

Ha magyarul szeretné megkapni ezt a dokumentumot, kérjük, vegye fel a kapcsolatot:

您如果想得到這份文件的粵語版本請聯絡

01352 703020

Gwasanaethaucwsmer@siryfflint.gov.uk
customerservices@flintshire.gov.uk

Stonewall HYRWYDDWR AMRYWIAETH DIVERSITY CHAMPION

ARMED FORCES COVENANT
LLUOEDD ARFOG CYFAMOD
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME
CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR
GOLD AWARD
WOBR AUR

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# Adroddiad Blynyddol 2024/2025

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | **Crynodeb Gweithredol** | |
| 1. | Cyflwyniad | 5 |
| 2. | Cynnydd | 6 |
| 3. | Bodloni ein hamcanion cydraddoldeb | 6 |
| 4. | Casglu gwybodaeth ac Ymgysylltu (yn cynnwys gwybodaeth am y gweithlu) | 11 |
| 5. | Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau | 13 |
| 6. | Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb | 13 |
| 7. | Hyfforddiant | 14 |
| 8. | Caffael | 15 |
| 9. | Casgliad | 16 |
| | Atodiadau | |
| 1. | Adroddiad Monitro Cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol | |
| 2. | Proffil defnyddwyr gwasanaethau - Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | |
| 3. | Proffil disgyblion ysgol | |

# Crynodeb Gweithredol

Croeso i'r adroddiad blynyddol cyntaf ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir y Fflint 2024-2028, sy'n nodi'r cynnydd a wnaethom i gyflawni ein saith amcan cydraddoldeb yn ystod 2024/25. Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw lleihau anghydraddoldebau i bobl â nodweddion gwarchodedig.

Mae adolygiad o rwystrau fframiau A wedi'i gynnal ar hyd rhannau o lwybr yr arfordir, gan fod y rhwystrau hyn yn cyfyngu ar fynediad i bobl anabl â sgwteri symudedd a rhieni / gofalwyr â phramiau.  Bydd y rhwystrau hyn yn cael eu newid i wella mynediad. Mae adolygiad yn cael ei gynnal nawr o rwystrau eraill ar hyd y Llwybr Teithio Llesol.

Rydym wedi gwneud ymrwymiad i fewnosod Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a Chynllun Gweithredu LHDT+ Cymru o fewn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Rydym yn falch o adrodd bod cyfres o hyfforddiant gwrth-hiliaeth wedi'i gyflwyno ar gyfer rheolwyr ac aelodau etholedig. Ein targed yw cael cyfradd o 100% o reolwyr yn mynychu'r hyfforddiant hwn.

Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb hefyd wedi'i adlewyrchu yn ein hysgolion. Roeddem yn wrth ein boddau pan aeth myfyrwyr o'n hysgolion ati i barhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid i drefnu eu digwyddiad Balchder eu hunain i godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n wynebu unigolion Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LHDT) ac i ddathlu bod yn wahanol.

Neal Cockerton
Prif Weithredwr

Y Cynghorydd Linda Thomas
Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol

# Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024/2025

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 y Cyngor yn trafod y cyfnod o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025. Mae'r adroddiad yn nodi'r cynnydd i fodloni ein hamcanion cydraddoldeb ac yn rhoi crynodeb o gyflawniadau yn ystod y cyfnod hwn.

1.2 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd sector cyhoeddus i

a) ddileu erledigaeth, aflonyddu a gwahaniaethu;

b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu; a

c) meithrin perthnasau da rhwng pobl â nodweddion a ddiogelir a phobl hebddynt.

1.3 Y nodweddion gwarchodedig fel y maent yn cael eu diffinio gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw:

| | |
|---|---|
| Oedran | Anabledd |
| Ailbennu Rhywedd | Priodas a Phartneriaeth Sifil |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Hil |
| Crefydd a Chred | Rhyw |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | |

Caiff ein hymrwymiad tuag at y Gymraeg a thrin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb eu hamlinellu yn yr Hysbysiad Cydymffurfio - Y Gymraeg. Fe ymdrinnir â'r camau gweithredu yr ydym wedi eu cymryd i fodloni ein cyfrifoldebau statudol tuag ar y Gymraeg mewn adroddiad ar wahân.

Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus:-

- gyhoeddi amcanion i ymdrin â gwahaniaethau mewn tâl;
- cyhoeddi datganiad yn amlinellu'r camau y mae wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i fodloni'r amcanion a faint o amser mae'n disgwyl ei gymryd i fodloni pob amcan;
- llunio adroddiad blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn, a fydd yn cynnwys gwybodaeth benodol ynglŷn â chyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth ar hyfforddiant a thâl;
- ymgysylltu â phobl o grwpiau gwarchodedig;
- asesu effaith polisïau newydd a diwygiedig ar bobl o grwpiau gwarchodedig; a

- chyhoeddi a defnyddio gwybodaeth ar gydraddoldeb.

Pwrpas yr amcanion cydraddoldeb yw lleihau meysydd penodol o anghydraddoldeb a nodwyd gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol. Rydym hefyd wedi gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill ar draws Gogledd Cymru er mwyn nodi amcanion cydraddoldeb rhanbarthol.

1.4 Yn ogystal â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol caiff ein gwaith ar gydraddoldeb ei gefnogi gan bolisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb, a Chanllaw Iaith Eglur a chaiff ei ddarparu fel rhan o ddogfennau Cyngor amrywiol megis Cynllun y Cyngor a'r Strategaeth Cwsmeriaid.

## 2. Cynnydd

2.1 Cyhoeddwyd ein hamcanion cydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ym mis Mawrth 2024. Mae'r cynllun gweithredu i fodloni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gael yn Atodiad 1; mae hwn yn amlygu'r cynnydd a wnaed i fodloni bob amcan a cham gweithredu.

## 3. Bodloni ein Hamcanion Cydraddoldeb 2024/25

3.1 Mae'r adran hon yn nodi ein prif gyflawniadau i fodloni ein saith amcan cydraddoldeb yn ystod 2024/25.

### Amcan 1:Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl.

**Yn ystod 2024/25:**

- Mae canolbwynt integredig newydd, Coed-y-Ddraig, yn cael ei ddatblygu. Bydd hwn yn cynnig cyfleuster a adeiladwyd yn bwrpasol i unigolion ag anableddau dysgu a/neu anghenion cymorth awtistiaeth. Yn ogystal â hyn, bydd gwasanaethau iechyd a therapïau a ddarperir gan BIPBC ar gael yn y canolbwynt, yn cynnwys Ffisiotherapi, Dieteteg, Therapi Galwedigaethol, Therapi Iaith a Lleferydd a rhaglenni a arweinir gan gyfoedion fel y Rhaglen Addysg i Gleifion.
- Mae Rhaglen Dysgu er Lles Sir y Fflint yn bartneriaeth rhwng Cyngor Sir y Fflint a nifer o sefydliadau statudol a thrydydd parti eraill, sy'n cynnig cyrsiau am ddim i unrhyw un dros 18 oed yn Sir y Fflint sy'n cael trafferth gyda'u lles meddyliol a/neu eu gofalwyr.Mae'r fenter hefyd yn cynnig cefnogaeth i bobl sy'n mynychu. Mae'r pamffledyn diweddaraf yn cynnig dros 85 o gyrsiau gan gynnwys Gwella Saesneg a Mathemateg, datblygu cynllun lles personol, a phêl-droed.
- Cynigiwyd cyrsiau Rheoli Gorbryder i weithwyr i'w cefnogi i reoli eu hiechyd meddwl.
- Roedd cwrs Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar gael i weithiwyr, a oedd wedi'i anelu at hyrwyddo dealltwriaeth o broblemau iechyd meddwl a darparu'r sgiliau i allu ymateb yn briodol i eraill sydd efallai angen cefnogaeth.

- Mae 35 o Gefnogwyr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar draws y Cyngor.
- Darparwyd Cyflwyniad i'r Cwrs Lles, Cadernid ac Ymwybyddiaeth Ofalgar i weithwyr.
- Fe gymerom ran yn y Diwrnod Amser i Siarad gan annog pawb i siarad am iechyd meddwl a Diwrnod Ymwybyddiaeth o Hunanladdiad a hyrwyddwyd i roi cefnogaeth i'n gweithlu.
- Mae'r Gwasanaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydweithio i gefnogi pobl â phroblemau amrywiol yn gysylltiedig â thai, e.e. celcio, tai mewn cyflwr gwael, digartrefedd, cyllidebu. Bydd dangosyddion perfformiad yn cael eu datblygu i fesur y gwaith dan sylw a gellir adrodd arno ar gais.
- Yn ystod y broses ymsefydlu ar gyfer gweithwyr newydd, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn trafod dull dim goddefgarwch y Cyngor o ymdrin â hiliaeth a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'r Pecyn Ymsefydlu a roddir i bob dechreuwr newydd yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys gwybodaeth am Wrth-hiliaeth a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.

**Cam Gweithredu Newydd**

Byddwn yn ychwanegu cam gweithredu newydd ar Weithwyr Rhyw gyda'r nod o wella diogelwch a lles merched o fewn y Cynllun o 2025 ymlaen. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn adrodd mai merched yw 88% o weithwyr rhyw a bod cyfraddau marwolaethau gweithwyr rhyw benywaidd 12 gwaith yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol.

## Amcan 2: Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella lles

**Yn ystod 2024/25:**

- Parhaodd chwech o ysgolion uwchradd i gymryd rhan ym mhrosiect "Leaders of Now" yr elusen Show Racism the Red Card. Nodau'r rhaglen yw:
    - Grymuso pobl ifanc i fod yn wrth-hiliol yn eu cymunedau eu hunain.
    - Creu rhwydwaith hunangynhaliol o weithredwyr gwrth-hiliaeth.
    - Galluogi sgyrsiau tymor hwy parhaus am hiliaeth a gwrth-hiliaeth.
    - Galluogi i bobl ifanc deimlo'n hyderus wrth herio hiliaeth yn eu gofodau eu hunain.
    - Casglu gwybodaeth am yr hyn y mae pobl ifanc ei eisiau/ei angen gennym ni, dan arweiniad disgyblion.
    - Rhoi llais i ddisgyblion sy'n cael ei glywed gan uwch arweinwyr ysgol.
- Parhaodd y clwb ieuenctid Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol Pride Inspire, ac mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal erbyn hyn.
- Trefnodd myfyrwyr ysgol eu digwyddiad Balchder blynyddol - roedd 250 o fynychwyr gan gynnwys dysgwyr o ysgolion uwchradd ledled y sir a chynrychiolwyr o dros 30 o elusennau a sefydliadau LHDTC+.
- Mae teuluoedd o Ffoaduriaid sy'n symud i Sir y Fflint wedi cael cynnig cymorth cynhwysfawr. Mae hyn wedi cynnwys cymorth i gael mynediad at addysg ac i

ymgysylltu a hi ynghyd â gwasanaethau gofal estynedig i gefnogi'r teulu cyfan i integreiddio'n llwyddiannus â'r gymuned ehangach. Mae cyrsiau Saesneg fel ail iaith wedi cael eu darparu gan gynnwys rhywfaint o Gymraeg lefel cwrteisi.

- Gweithiodd y Tîm Chwarae gyda'r Tîm Adsefydlu i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau i blant o deuluoedd Ffoaduriaid sy'n mynychu cynlluniau Chwarae'r Haf. Arweiniodd hynny at, nid yn unig lefelau presenoldeb uwch, ond datblygu perthnasoedd â theuluoedd lleol a lleihau'r teimlad o arwahanrwydd.
- Darparodd sefydliad Men At Work hyfforddiant '12 DIALOGUES' ar eu pecyn adnoddau gyda'r nod o helpu'r rheiny sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda bechgyn a dynion ifanc i hwyluso ymgysylltiad adeiladol gyda nhw am faterion sy'n bwysig ac am fod yn ddiogel eu hunain ac i eraill o'u cwmpas.
- Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o Incel wedi cael ei gynnig i ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o is-ddiwylliant ar-lein 'Incel' ac arwyddion sy'n awgrymu bod pobl ifanc yn ymgysylltu ag o.Mae 'Incel' yn golygu bod yn anghydweddog yn anwirfoddol ac mae'n gysylltiedig ag is-ddiwylliant ar-lein. Term hunan-ddisgrifiadol a ddefnyddir gan ddynion sy'n ystyried eu hunain fel rhywun sy'n methu â denu merched yn rhywiol yw hwn. Mae 'incels' wedi troi'r bai yn allanol, gan arwain at atgasedd tuag at ferched.

## Amcan 3: Sicrhau cyflog cyfartal o fewn y gweithle drwy gael strategaethau cyflog a graddio teg, agored a thryloyw

**Yn ystod 2024/25:**

- Rydym yn parhau i adolygu ein model cyflog i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn deg.
- Rydym wedi cynnal statws cyflogaeth Hyderus o ran Anabledd. Cynllun gan Lywodraeth y DU yw hwn i gyflogwyr gymryd camau i wella sut y maent yn recriwtio, cadw a datblygu pobl anabl.
- Rydym wedi parhau i gynnig patrymau gweithio hyblyg i gefnogi ein gweithwyr i gynnal cydbwysedd bywyd a gwaith.
- Mae cyfleusterau bronfwydo i alluogi merched i dynnu llaeth yn breifat wedi cael eu darparu yn un o'n prif adeiladau a byddant yn dod i adeiladau eraill hefyd. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i ferched ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod mamolaeth.
- Mae cyfleusterau gweddïo / tawel wedi cael eu darparu mewn un adeilad a byddant ar gael mewn adeiladau eraill hefyd.

## Amcan 4: Gwella diogelwch personol i holl grwpiau gwarchodedig

**Yn ystod 2024/25:**

- Fel rhan o'n hymrwymiad i Siarter Trosedd Casineb Cymorth i Ddioddefwyr, cynigodd Cymorth i Ddioddefwyr hyfforddiant ymwybyddiaeth o drosedd casineb wyneb yn wyneb ac ar-lein gan alluogi mwy o weithwyr i adnabod trosedd casineb, deall effaith trosedd casineb a gwybod sut i adrodd amdano. Roedd y cyrsiau'n cynnwys:
    - Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb Ar-lein

    - Hawliau Ymfudwyr
    - Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb.
    - Troseddau Cyfeillio
    - Pobl ifanc a Chasineb
    - Troseddau Casineb ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cafodd gweithwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc hyfforddiant 'Combat Hate' sy'n edrych ar rai o'r heriau cyfoes y mae ein cymunedau yn eu hwynebu, yn benodol, materion sy'n ymwneud â'r asgell dde, polareiddio ac eithafiaeth Mae'n defnyddio profiadau pobl sydd wedi ymgysylltu â grwpiau eithafol ac sydd wedi cael eu heffeithio gan eithafiaeth yr asgell dde.
- Adroddwyd am 223 achos o ddigwyddiadau casineb yn Sir y Fflint yn ystod 2024/25.

| Math o ddigwyddiad | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Wedi'i ysgogi gan hil | 99 | 92 | 126 | 151 | 111 | 118 |
| Homoffobig | 40 | 39 | 61 | 58 | 35 | 52 |
| Yn ymwneud ag anabledd | 20 | 38 | 65 | 39 | 22 | 36 |
| Trawsffobig | 4 | 7 | 7 | 10 | 11 | 13 |
| Crefyddol | 5 | 7 | 6 | 13 | 14 | 4 |
| Cyfanswm | 168 | 183 | 265 | 271 | 193 | 223 |

Roedd cynnydd yn nifer yr adroddiadau o droseddau casineb yn ystod 2024/25 o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol.Mae Heddlu Gogledd Cymru yn adrodd bod y ffigyrau ar gyfer Sir y Fflint yn cyd-fynd â'r darlun rhanbarthol a chenedlaethol.

- Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, fe wnaethom gyhoeddi negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus eraill i annog pobl i adrodd am droseddau casineb.
- Cwblhaodd 1,067 o weithwyr y modiwl e-ddysgu ar Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb.
- Parhaodd Cymorth i Ddioddefwyr i ddarparu hyfforddiant ar Droseddau Casineb, ac fe fynychodd ein gweithwyr.
- Fe wnaethom chwifio'r faner Traws ar 20 Tachwedd i nodi'r Diwrnod Cofio Trawsryweddol er cof am unigolion trawsryweddol sydd wedi marw yn dilyn trais trawsffobia.
- Mae 442 o weithwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant e-ddysgu Caethwasiaeth Fodern.
- Rydym wedi sefydlu is-grŵp o'r Bwrdd Cydraddoldeb i ddatblygu system i gasglu data troseddau casineb ar draws y Cyngor ac i fonitro tueddiadau a mannau problemus.
- Rydym yn parhau i weithio tuag at Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr.

## Amcan 5: Cynyddu mynediad at wasanaethau a gwneud penderfyniadau i holl grwpiau gwarchodedig

**Yn ystod 2024/25:**

- Ar y cyd â'r Tîm Adsefydlu, bu'r tîm Datblygu Chwarae yn gweithio gyda theuluoedd Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau posibl i gymryd rhan mewn Cynlluniau Chwarae'r Haf. Rhoddodd y Tîm Chwarae ymyraethau ar waith megis y Bws Cerdded i sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel yn cerdded i'r Cynlluniau Chwarae ac yn ôl.
- Cyflwynodd y Gwasanaethau Cymdeithasol 'Mind of my Own', sef offeryn digidol arloesol wedi'i ddylunio i rymuso plant a phobl ifanc drwy roi llais iddynt yn eu gofal a'u cefnogaeth.
- Fe wnaethom adolygu a dechrau tynnu rhwystrau ffrâm A ar Lwybr yr Arfordir er mwyn rhoi gwell mynediad i bobl anabl sy'n defnyddio sgwteri symudedd a rhieni / gofalwyr sy'n gwthio pramiau.
- Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu camau a argymhellwyd gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a nodwyd yn eu hadroddiad "Darparu Gofal Cymdeithasol mewn Cymru Wrth-Hiliol", sy'n cwmpasu dehongli a chyfieithu, recriwtio a datblygu gyrfa gweithwyr o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig a dileu hiliaeth yn y gweithle. Mae rhai o'r argymhellion hyn yn berthnasol i'r holl Bortffolios a byddant y sefydliad cyfan yn ymgymryd â nhw.

## Amcan 6: Gwella safon byw pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol

**Yn ystod 2024/25:**

- Mae'r gwaith o adeiladu cartref gofal newydd gwerth miliynau o bunnau yn y Fflint, Tŷ Croes Atti, bron wedi'i gwblhau. Bydd y prosiect yn adleoli ac yn ymestyn cartref gofal presennol o 31 i 56 o welyau. Bydd y cyfleuster newydd yn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd integredig a ddarperir gan BIPBC a thimau Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint.
- Cwblhawyd 914 o addasiadau i gefnogi pobl anabl i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Roedd y rhain yn amrywio o addasiadau bach i rai canolig i rai mawr.
- Rydym wedi parhau i gefnogi Ffoaduriaid o Syria ac Affganistan a phobl o'r Wcráin.
- Mae Tai Pawb yn gweithio gyda'r gwasanaeth Tai i fewnosod dull gweithredu gwrth-hiliaeth yn eu gwaith. Mae Tai Pawb yn cefnogi sefydliadau Tai yng Nghymru.

## Amcan 7 Datblygu ein gwybodaeth am y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i amddiffyn pobl rhag tlodi

Fe wnaethom barhau i gefnogi pobl sy'n byw mewn tlodi yn ystod 2024/25.

**Yn ystod 2024/25:**

- Rydym yn parhau i gefnogi aelwydydd i liniaru effeithiau tlodi yn y gwaith drwy hyrwyddo Taliadau Disgresiwn At Gostau Tai (DHP) a chyngor ynghylch cyllidebu i wneud y mwyaf o incwm.
- Mae siopau symudol 'Well-fed' wedi llwyddo i gludo prydau parod a chynhwysion coginio ffres i'r rheiny a nodwyd fel rhai diamddiffyn. Mae pecynnau i goginio pryd mewn crochan araf bellach ar gael i'w prynu.
- Rydym wedi parhau i gynyddu effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi - mae 1349 o fesurau wedi cael eu darparu yn erbyn targed blynyddol o 1200. Mae'r mesur yn cynnwys amryw o gydrannau a gyflawnwyd i stoc dai preifat a chyhoeddus ar gyfer gwres adewyddadwy, gwres canolog nwy, insiwleiddio croglofftydd a waliau ceudod a gosod paneli solar ffotofoltäig.
- Darparwyd 205 o gardiau SIM data am ddim a thalebau i breswylwyr mewn tlodi digidol.

## 4. Casglu gwybodaeth ac ymgysylltu

4.1 Datblygwyd systemau o fewn portffolios a gwasanaethau i gofnodi a monitro proffil ein cwsmeriaid yn ôl nodweddion gwarchodedig.  Fodd bynnag, mae pob gwasanaeth yn wahanol ac nid yw pob nodwedd warchodedig yn cael eu cofnodi ar bob system.  Nid oes digon o ddata ar gael ar gyfer dadansoddiad manwl ar gyfer mwyafrif y gwasanaethau. Mae'n gam gweithredu parhaus i wella'r dull o gasglu data ar draws gwasanaethau.

4.2 Daw'r categorïau a ddefnyddir i goladu data amrywiaeth o Gyfrifiad 2021.

4.3 Mae Grŵp Tasg a Gorffen wedi'i sefydlu i ddiweddaru canllawiau ar fonitro cydraddoldeb a datblygu ymgyrch i annog gweithwyr a phreswylwyr i 'dicio'r bocs', gan annog y rheiny sydd wedi dewis yr opsiwn 'Mae'n well gen i beidio â dweud' i ddewis categori.

4.4 Mae Cyngor Gwynedd wedi gwneud ymchwil ar ran Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, rhwydwaith o holl Swyddogion Cydraddoldeb cyrff cyhoeddus Gogledd Cymru, i helpu i nodi anghydraddoldebau a brofir gan grwpiau gwarchodedig. Mae'r wybodaeth hon ar gael i wasanaethau ei defnyddio.

4.5 Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru wedi datblygu enghraifft o ffurflen monitro cydraddoldeb gyda Nodyn Canllaw Deg Awgrym i'w Cofio. Mae hyn yn helpu i sicrhau cysondeb ymhlith y categorïau monitro cydraddoldeb a ddefnyddir gan gyrff cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru a bydd yn cyfrannu at feincnodi mwy effeithiol. Mae hwn yn cael ei ddiweddaru.

4.6 Cesglir data ansoddol drwy ddulliau eraill megis arolygon a grwpiau ffocws a thrwy ymgysylltu â grwpiau lleol megis:

- Fforwm Anabledd Sir y Fflint
- Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint
- Cysylltiadau ffydd
- Fforwm Pobl Hŷn
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Cynghorau Ysgol
- Stonewall Cymru
- Travelling Ahead sy'n gweithio gyda Sipsiwn a Theithwyr
- Grŵp trawsrywiol Unique
- Grŵp Gweithredu i rai dros 50 oed

4.7 Rydym wedi parhau i gydweithio gyda'r Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i gryfhau ymgysylltu. Yn ystod 2024/25 trefnodd y Tîm Cydlyniant Cymunedol gynhadledd ar gyfer Gogledd Cymru gyfan gan ddod â chyrff cyhoeddus a budd-ddeiliaid at ei gilydd i edrych ar sut i wella ymgysylltiad.

**Defnyddio gwybodaeth i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.**

4.8 Caiff proffil cwsmeriaid/defnyddwyr gwasanaeth ei gymharu yn erbyn proffil y gymuned er mwyn adnabod meysydd â gormod o gynrychiolaeth/heb gynrychiolaeth neu sy'n tan gyflawni sydd yn galluogi gwasanaethau i osod targedau ar gyfer gwella. Enghraifft o hyn yw'r gwaith sy'n cael ei gynnal gan y Tîm Troseddu Ieuenctid. Mae data atgyfeiriadau i'r Tîm yn cael eu dadansoddi'n rheolaidd i nodi anghymesuredd. Cefnogir y gwaith hwn hefyd gan arolygon o'r bobl ifanc sydd wedi'u hatgyfeirio i sicrhau bod y driniaeth wedi bod yn deg.

4.9 Mae defnyddio data yn y ffordd hon yn helpu gwasanaethau i adnabod meysydd posibl o wahaniaethu a meysydd gwirioneddol o wahaniaethu ac ehangu cyfle cyfartal, drwy osod targedau gwelliant a fydd yn cael eu cynnwys yn y CCS. Defnyddiwyd y wybodaeth yma i nodi Amcanion cydraddoldeb lleol y Cyngor hefyd.

4.10 Defnyddir cymariaethau o lefelau boddhad a chwynion a gwybodaeth o grwpiau ffocws hefyd i adnabod unrhyw feysydd o wahaniaethau posibl a meysydd gwirioneddol o wahaniaethu a meysydd o densiwn cymunedol sydd yn eu tro yn cyfrannu at ganfod cyfleoedd i ehangu cydraddoldeb a meithrin perthnasau da.

**Gwybodaeth Cyflogaeth**

4.11 Mae proffil amrywiaeth llawn o'r gweithlu yn cael ei gyhoeddi ar wahân ac mae'n cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol dan ddyletswyddau penodol Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae hwn ar gael ar ein gwefan.Nid oedd yr adroddiad ar gyfer 2024/25 yn barod pan ysgrifenwyd yr adroddiad hwn.

4.12 Cesglir gwybodaeth ansoddol drwy adborth gan gynrychiolwyr o'r Undebau Llafur yn y Cyd Bwyllgor Ymgynghori Undeb Llafur.

4.13 Defnyddir gwybodaeth ansoddol a meintiol i ddylanwadu ar asesiadau o effaith ar gydraddoldeb ar bolisïau ac arferion Adnoddau Dynol ac i adnabod meysydd posibl/gwirioneddol o anghydraddoldeb sydd angen ymchwiliad pellach.

## 5. Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

5.1 Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn fesur o'r gwahaniaeth yng nghyflog cyfartalog (cymedrig neu ganolrifol) dynion a merched, waeth beth fo natur eu gwaith, ar draws y sefydliad cyfan. Ar draws Cyngor Sir y Fflint, mae dynion a merched yn cael eu talu'n gyfartal am wneud swyddi cyfwerth, fel y pennir gan ein cynllun gwerthuso swyddi.

5.2 Mae Rheoliadau Gwybodaeth am y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyflogwr sydd â 250 neu fwy o weithwyr ar y dyddiad y casglwyd y data adrodd ar eu Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn flynyddol.
Yn ogystal â'r rheoliadau hyn, mae gan gyflogwyr yn y sector cyhoeddus ddyletswydd i sicrhau cydraddoldeb penodol y sector cyhoeddus mewn perthynas â'u swyddogaethau - Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017.

5.3 Bydd Adroddiad y Cyngor ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau ar gyfer 2024/25 yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mawrth 2026 a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae crynodeb o'r blynyddoedd blaenorol i'w weld yn y tabl canlynol.

| Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyffredinol** | 13.11% | 13.75% | 13.71% | 12.76% | 11.53% |
| **NJC / Llyfr Gwyrdd** | 15.00% | 15.37% | 15.47% | 13.99% | 12.58%. |

## 6.0 Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)

6.1 Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb yw un o'r dulliau a ddefnyddir i wneud cydraddoldeb yn rhan o'r brif ffrwd ac i gefnogi gwasanaethau i adnabod targedau cydraddoldeb penodol.

6.2 Mae templed Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb rhanbarthol wedi'i ddatblygu gan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru sy'n cynnwys Cydraddoldeb, y Gymraeg ac effeithiau economaidd-gymdeithasol. Cafodd hwn ei rannu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiynydd y Gymraeg i gael eu hadborth cyn iddo gael ei fabwysiadu gan aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru. Mae hyn bellach

wedi cael ei ymgorffori yn ein Hasesiadau Effaith Integredig a ddatblygwyd i gasglu'r wybodaeth berthnasol sydd ei hangen ar gyfer ystod o asesiadau effaith, yn cynnwys yr amgylchedd, iechyd, tlodi, a'r Gymraeg. Mae nodiadau arweiniad ar gael ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig i gefnogi awduron yr Asesiadau Effaith Integredig.

6.3 Rydym yn gweithio gyda Phrifysgol Manceinion i dreialu adnodd newydd ar gyfer AEI, Adnodd Cefnogi Penderfyniadau ar Garbon a Chyd-fanteision. Mae'r brifysgol bellach ar y cam gwerthuso, gan gyfweld awduron AEI a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall sut mae hyn yn dylanwadu a gwella penderfyniadau. Rhaid i Asesiadau Effaith Integredig gael eu cynnwys ym mhob un o'n hadroddiadau pwyllgor strategol i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn deall effaith eu penderfyniadau.

6.4 Rydym wedi sefydlu is-grŵp o'r Bwrdd Cydraddoldeb i adolygu a sicrhau ansawdd Asesiadau Effaith Integredig. Mae'r grŵp hwn yn y camau cynnar ar hyn o bryd ond mae wedi datblygu templed i wirio ansawdd asesiadau effaith. Mae proses yn cael ei datblygu i sicrhau nad yw adroddiadau yn cael eu rhoi i bwyllgorau oni bai fod asesiad effaith ar gael.

6.5 Mae hyfforddiant asesiadau effaith pwrpasol ar gael i dimau yn ogystal â rhaglen e-ddysgu.

## 7.0 Hyfforddiant

7.1 Mae manylion ynglŷn â sut rydym yn hyrwyddo dealltwriaeth a gwybodaeth o gydraddoldeb i'w gweld yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae dau becyn e-ddysgu gorfodol yn benodol ar gydraddoldeb:

- Deddf Cydraddoldeb 2010 - cwblhawyd gan 710 o weithwyr.
- Cydraddoldeb yn y Gweithle - cwblhawyd gan 630 o weithwyr.

Mae'r modiwlau hyn yn cael eu diweddaru gan fod y Cyngor bellach yn defnyddio darparwr e-ddysgu gwahanol.

7.2 Cefnogir y rhain gan becynnau e-ddysgu ar:

- Caethwasiaeth fodern - cwblhawyd gan 766 o weithwyr.
- Trosedd casineb - cwblhawyd gan 1,067 o weithwyr.

7.3 Mae amrywiaeth a chydraddoldeb hefyd yn cael eu cynnwys mewn:

- Rhaglenni'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM), ar bob lefel.
- Modiwlau E-ddysgu i reolwyr newydd.
- Cyflwyniad Corfforaethol

7.4 Yn ystod 2024/25, darparwyd rhaglenni e-ddysgu a gweithdai ar: -

- Darparwyd cwrs Ymwybyddiaeth o Nam ar y Golwg gan Vision Support.
- Darparodd elusen Vision Support hyfforddiant cynhwysedd i gefnogi gwasanaethau i ddatblygu gwasanaethau cynhwysol a chroesawgar i blant a phobl ifanc sy'n ddall neu'n rhannol ddall.

- Darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth Troseddau Casineb gan Gymorth i Ddioddefwyr.
- Hyfforddiant Bias Anymwybodol - roedd 31 o weithwyr yn bresennol.
- Ymwybyddiaeth Awtistiaeth (cwblhawyd ar-lein gan 72 o weithwyr ac roedd 39 o weithwyr wedi mynychu gweithdai wyneb yn wyneb).
- Ymwybyddiaeth o'r Menopos - 29 o weithwyr yn bresennol.
- Modiwl e-ddysgu Trais yn Erbyn Merched a gwblhawyd gan 722 o weithwyr.
- Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o fod yn Fyddar, darparwyd cwrs Cyflwyniad i Iaith Arwyddion Prydain i weithwyr.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi darparu'r hyfforddiant canlynol i'w gweithlu:

- Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth
- Ymwybyddiaeth o Ddementia ar gyfer Staff Gofal
- Bws Dementia - Profiad Rhithiol o Ddementia
- Ymwybyddiaeth o Ffrindiau Dementia
- Dementia – gwrandewch arna i, ystyriwch fi, cefnogwch fi.
- Cwrs Dehonglwr Dementia i gefnogi cyfranogwyr i werthfawrogi sut beth yw colli'r gallu i gyfathrebu'n llafar a'r heriau sy'n gysylltiedig â hynny.
- Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl a Hunanladdiad FEDRA' I
- Iechyd Meddwl - Iselder
- Iechyd Meddwl – Rheoli Gorbryder
- Iechyd Meddwl - Rheoli Straen
- Ymwybyddiaeth o Hunanladdiadau
- Ymwybyddiaeth o Eiriolaeth
- Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol wrth Ymgysylltu â'r Gymuned
- Gwytnwch Digidol Plant a Phobl Ifainc

## 8.0 Caffael

8.1 Mae manylion am sut y caiff cydraddoldeb ei ymgorffori i'r broses Caffael wedi'i nodi yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae cwestiynau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys yn ein holiadur cyn-gymhwyso
ar gyfer pob tendr. Hefyd, mae Caethwasiaeth Fodern wedi cael ei gynnwys fel elfen yn yr holiadur, mae'n edrych ar y camau y mae contractwyr arfaethedig yn eu cymryd i ddileu caethwasiaeth fodern yn eu gweithlu a chadwyni cyflenwi. Hefyd, mae cymalau ar werth cymdeithasol yn cael eu cynnwys mewn contractau dros £1 miliwn; mae contractau o £10,000 yn cynnwys elfen o werth cymdeithasol yn y dulliau sgorio.

8.2 Rydym wedi cofrestru â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru (LlC): Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Rydym wedi ymrwymo i set o weithredoedd i fynd i'r afael â chyflogaeth anghyfreithiol ac annheg. Rydym yn cyhoeddi Datganiad Caethwasiaeth Fodern, sy'n nodi'r camau fyddwn ni'n eu cymryd i sicrhau nad oes caethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi.

## 9.0 Casgliad

9.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd rydym yn ei wneud i fodloni'r dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus cyffredinol a phenodol. Fodd bynnag, mae'n glir ei bod wedi bod yn heriol casglu rhywfaint o'r data i fonitro cynnydd. Ein blaenoriaethau yw:


- Parhau i wella ansawdd a nifer yr Asesiadau Effaith Integredig a gwblheir.
- Cynyddu nifer y gweithwyr a chwsmeriaid sy'n cwblhau'r holiaduron monitro cydraddoldeb.
- Parhau i wneud cynnydd ar Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a Chynllun Gweithredu LHDT+ Cymru.

**Diolch am ddarllen ein Hadroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024/25.**


## Atodiad 1 Adroddiad Monitro Cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

**Amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol 1**

Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl




| | |
|---|---|
| | Coch: ddim yn mynd rhagddo - oedi wrth ddangos cynnydd |
| | Oren: monitro - ychydig o oedi ond ar y trywydd iawn yn bennaf |
| | Gwyrdd : ar y trywydd iawn, wedi'i gwblhau neu'n dangos cynnydd yn unol â'r cynllun |
| | Llwyd: data ar goll |




| | |
|---|---|
| | Coch: targed wedi'i fethu a thu allan i'r ystod a oddefir |
| | Oren: targed wedi'i fethu ac o fewn yr ystod a oddefir |
| | Gwyrdd: targed wedi'i gyflawni |
| | Llwyd: data ar goll |

## Diweddariadau Chwarterol ar y Cynllun Gweithredu

| Cod Gweithredu | Disgrifiad | Portffolio | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| CHR007T | Hyrwyddo Rhaglen Cymorth Gweithwyr y Cyngor i gynyddu defnydd. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ★ | Nid yw'r data gan Vivup i'w gyflwyno tan ddiwedd y mis, felly nid oes modd darparu'r ystadegau diweddaraf ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn seiliedig ar yr adborth a'r niferoedd sydd wedi manteisio ar y cynnig hyd yma, mae'r newid i Vivup wedi bod yn gam cadarnhaol. |
| CSS025T | Cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau lles meddyliol drwy hyrwyddo lles personol a chymunedol drwy gyrsiau mynediad agored sy'n cael eu darparu gan y Bartneriaeth Ddysgu. | Gwasanaethau Cymdeithasol | ✔ | Mae'r Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl yn parhau i annog presenoldeb ar gyrsiau yn weithredol. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â chwe sefydliad arall yn y trydydd sector, a gwasanaethau statudol. Rydym yn darparu cymorth i bobl fynychu. Mae 71 o gyrsiau ar gael yn y llyfryn cyfredol ac mae'r rhain yn rhad ac am ddim i'w mynychu. |
| CSS028T | Darparu lleoliadau ychwanegol ar gyfer gofal camu i lawr o fewn ein darpariaeth fewnol (Croes Atti 2). | Gwasanaethau Cymdeithasol | ★ | Mae'r gwaith adeiladu yn dod yn ei flaen yn dda ac mae'r cyfan ar y trywydd iawn. Mae disgwyl i'r gwaith fod wedi'i gwblhau ac yn barod i'w drosglwyddo ar 5 Mehefin 2025, ac yna bod yr adeilad ar gael i'w feddiannu yn yr haf. Mae'r model gwasanaeth wedi cael ei gynnig. Disgwylir cadarnhad gan Iechyd ynghylch a yw wedi cael ei gymeradwyo. |
| CSS031T | Parhau i dyfu'r farchnad Micro-Ofal, gan gynnwys mynediad at becynnau gofal a gomisiynir. | Gwasanaethau Cymdeithasol | ✔ | Mae pump o Ficro-Ofalwyr ychwanegol wedi'u sefydlu yn ystod Chwarter 4, gan olygu bod 23 o Ficro-Ofalwyr newydd wedi'u hychwanegu yn 2024/25. Mae nifer y darparwyr Micro-Ofal a gomisiynwyd wedi parhau i gynyddu, ac mae 16 darparwr o'r fath wedi arwyddo contract gyda'r Cyngor erbyn hyn. |

| Cod Gweithredu | Disgrifiad | Portffolio | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SEP001T | Parhau i gefnogi pobl anabl i sicrhau cyfleoedd cyflogaeth drwy Brosiect Search. | Gwasanaethau Cymdeithasol | | Mae Prosiect SEARCH yn rhaglen interniaeth cyflogaeth a gefnogir, sy'n darparu profiad gwaith go iawn a hyfforddiant cyflogadwyedd a sgiliau byw'n annibynnol i unigolion sydd ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth.<br>Caiff y rhaglen ei gweithredu fel partneriaeth rhwng y busnes/ busnesau sy'n ei chynnal a darparwr cyflogaeth gyda chefnogaeth i oedolion, gyda'r nod o greu cyflogaeth â thâl i interniaid pan fyddant yn graddio.<br>Mae dwy raglen ar waith yn Sir y Fflint ar hyn o bryd. Carfan a gynhelir ar y cyd gan Gyngor Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), a rhaglen arall mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Clwyd Alyn yn Llys Raddington. Dyma raglen academaidd flwyddyn o hyd rhwng mis Medi a mis Gorffennaf. Mae'r interniaid yn cwblhau tri lleoliad yn ystod y cyfnod hwn, a chynhelir seremoni raddio ar gyfer pob rhaglen yn yr haf.<br>Yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, fe wnaeth 8 o raddedigion gwblhau'r rhaglenni. Ers i'r cynllun ddechrau yn Sir y Fflint, mae tua 19 o unigolion wedi cael cyflogaeth â thâl. |
| SEP002T | Cyfathrebu prosesau a pholisïau priodol i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw bryderon a chwynion ynghylch ymddygiad gwahaniaethol yn gadarn a thryloyw (yn cynnwys y polisi rhannu pryderon). | Gwasanaethau Cymdeithasol | | Mae Tîm Datblygu Gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnal sesiynau sefydlu misol ar gyfer gweithwyr newydd a sesiynau sefydlu i staff gofal a chymorth uwch sy'n symud ymlaen i rolau uwch.<br>Yn ystod y sesiynau, trafodir dull dim goddefgarwch y Cyngor o ymdrin â hiliaeth a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru. Mae rhannu pryderon am ymddygiad neu iaith amhriodol a dulliau adrodd wedi'u cynnwys hefyd.<br>Rydym wedi cynnwys gwybodaeth am Wrth-hiliaeth yn y llyfryn sefydlu ar gyfer pob gweithiwr newydd. Ar gyfer aelodau presennol y gweithlu, fe ddarparwyd sesiynau hyfforddiant gwrth-hiliaeth drwy gydol y flwyddyn.<br>Mae Gofal Cymdeithasol Cymru ar fin lansio pecyn e-ddysgu y gallwn ei ddefnyddio i gefnogi ein gweithwyr i gwblhau hyfforddiant gwrth-hiliaeth. Nid yw'r dyddiad ar gyfer ei lansio wedi'i gyhoeddi eto,<br>ond disgwylir y bydd dros y misoedd nesaf. |
| SEP003T | Defnyddio bwletin staff y Gwasanaethau Cymdeithasol a chyrsiau hyfforddiant Datblygu'r Gweithlu i bwysleisio'r neges ei bod yn ddyletswydd ar bob gweithiwr i fynd i'r afael â phob math o wahaniaethu yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybod am ddigwyddiadau pan maent yn digwydd; ffurfio cynghreiriau gyda chyfoedion tebyg i fynd i'r afael â materion allweddol; codi ymwybyddiaeth a gwneud awgrymiadau ar gyfer diwygio cadarnhaol. | Gwasanaethau Cymdeithasol | | Mae cyrsiau sefydlu ar gyfer gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a staff gofal uwch sy'n newydd yn eu swyddi yn ymdrin â'n polisïau gwrth-hiliaeth, rhannu pryderon a chydraddoldeb ac amrywiaeth.<br>Rydym hefyd yn cynnal cyrsiau ar werthoedd Cyngor Sir y Fflint ac urddas yn y gwaith, er mwyn mynd i'r afael â phob math o wahaniaethu yn y gweithle.<br>Mae cyrsiau penodol wedi cynnwys:<br>• Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol wrth Ymgysylltu â'r Gymuned.<br>• Cyflwyniad i Hiliaeth a Gwrth-hiliaeth<br>• Ymwybyddiaeth iaith<br>• Gofyn a Gweithredu- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 |


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • Hyfforddiant ar gaethwasiaeth modern a masnachu mewn pobl<br>• Gweithdy Llinell Gymorth Byw Heb Ofn |
| SEP004T | Wrth i bolisïau gael eu datblygu a / neu eu hadolygu, byddwn yn sicrhau bod eu heffeithiau ar weithwyr a defnyddwyr gwasanaeth o leiafrifoedd ethnig a LHDT wedi cael eu hystyried drwy gwblhau Asesiad Effaith Integredig. | Gwasanaethau Cymdeithasol | ● | Mae Asesiadau Effaith Integredig yn cael eu cwblhau yn ôl yr angen wrth i bolisïau gael eu creu neu eu hadnewyddu. |
| SEP005T | Cynnal adolygiad o'r cwynion a dderbynnir gan ddefnyddwyr gwasanaeth i nodi ymddygiadau hiliol ac unrhyw batrymau cysylltiedig. | Gwasanaethau Cymdeithasol | ★ | Nid oes unrhyw gofnod o gwynion gan ddefnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â hiliaeth dros y 12 mis diwethaf. |
| SEP006T | Sicrhau bod cyrsiau hyfforddiant gwrth-hiliaeth ac ymwybyddiaeth o LHDTC+ wedi'u cynnwys yn rhaglen hyfforddi a datblygu y Gwasanaethau Cymdeithasol. | Gwasanaethau Cymdeithasol | ● | Mae hyfforddiant gwrth-hiliaeth ac LHDTC+ wedi'i gynnwys yng nghyfeiriadur hyfforddiant y Gwasanaethau Cymdeithasol bob blwyddyn. Mae pa mor aml y caiff y sesiynau eu cynnal yn dibynnu ar y galw.<br>Rydym yn dechrau ystyried sut i ddefnyddio adnodd e-ddysgu Gofal Cymdeithasol Cymru ar wrth-hiliaeth ar draws y portffolio, yn unol â rhaglen llysgenhadon gwrth-hiliaeth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS). |
| SEP007T | Cynnal hyfforddiant LHDTC+ Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer staff gofal cymdeithasol pan fydd ar gael. | Gwasanaethau Cymdeithasol | ● | Arhosir am lansiad modiwl hyfforddiant Gofal Cymdeithasol Cymru ar LHDTC+. Ar ôl iddo gael ei lansio, bydd yn cael ei hysbysebu i bob darparwr mewnol ac annibynnol yn y sector.<br>Mae sesiynau ymwybyddiaeth LHDTC+ wrthi'n cael eu cynnal yn y cyfamser. |
| SEP008T | Sicrhau bod ein gweithgareddau ymgysylltu â chyd–gynhyrchu yn ymgysylltu ag ystod eang o unigolion gan adlewyrchu ein hymrwymiad i gydraddoldeb hil a LHDTC+. | Gwasanaethau Cymdeithasol | ● | Gwneir ymdrech i sicrhau bod amrywiaeth eang o unigolion yn rhan o weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu. |
| SEP009T | Cynyddu cwblhad data ethnigrwydd ar gyfer ein defnyddwyr gwasanaeth. | Gwasanaethau Cymdeithasol | ● | Rhennir adroddiadau wythnosol er mwyn gwella arferion cofnodi pan fydd plant yn derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth. |

## Diweddariadau Blynyddol ar y Mesur

| Cod y Mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Portffolio | Gwirioneddol | Targed | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CHR006M | Nifer y Cefnogwyr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar draws y sefydliad (cynnydd). | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | 35.0 | 10.0 | ★ | Mae gennym 35 o gefnogwyr ar draws y sefydliad. Nid oedd modd i ni fuddsoddi mewn mwy o hyfforddiant, oherwydd y moratoriwm ar wariant diangen. Erbyn hyn, mae gennym raglen wedi'i chynllunio ym maes Tai lle bydd 12 arall yn cael eu hyfforddi yn 2025/26. |
| CHR007M | Cynyddu'r defnydd o Raglen Cymorth Gweithwyr y Cyngor. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | 66.0 | 10.0 | ★ | Cynnydd o 66% yn nifer y gweithwyr sy'n defnyddio'r Porth Hunan-gymorth. Mae ymgyrchoedd Infonet wedi'u targedu yn unol â mentrau iechyd cenedlaethol wedi cyfrannu at y cynnydd.<br>Gwelwyd cynnydd o 24% yn nifer y rheolwyr sy'n atgyfeirio gweithwyr at Vivup, gan arwain at gwnsela wyneb yn wyneb a dros y ffôn. Dengys hyn bod rheolwyr yn cefnogi lles gweithwyr yn weithredol. |
| SEP001M | Data ethnigrwydd ar ddefnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ôl nifer / %, lle mae data ethnigrwydd ar gael. | Gwasanaethau Cymdeithasol | 85.0% | | n/a | Gweithredu proses fwy cadarn yn y system Mosaic newydd, er mwyn sicrhau bod ethnigrwydd yn cael ei gofnodi'n gyson gan ddefnyddio categorïau safonol. |
| SEP002M | Nifer / % y gweithwyr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n mynychu hyfforddiant gwrth-hiliaeth. | Gwasanaethau Cymdeithasol | 26.0 | | n/a | Mae 26 o weithwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi mynychu sesiynau penodol ar wrth-hiliaeth. Yn ogystal, mae'r modiwl e-ddysgu Caethwasiaeth Fodern a Masnachu mewn Pobl yn fodiwl gorfodol i bob gweithiwr. |
| SEP003M | Nifer / % y gweithwyr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n mynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth o LHDTC+. | Gwasanaethau Cymdeithasol | 48.0 | | n/a | Mae 48 o weithwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi mynychu sesiynau penodol ar ymwybyddiaeth o LHDTC+. Yn ogystal, mae'r modiwlau e-ddysgu Caethwasiaeth Fodern a Masnachu mewn Pobl a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn orfodol i bob aelod o staff. Rydym hefyd yn cynnal hyfforddiant Gofyn a Gweithredu - Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, a ddarperir mewn partneriaeth gan Dîm Datblygu'r Gweithle a'r Uned Diogelwch Trais Teuluol. |
| SEP004M | Nifer y cwynion ynghylch gwahaniaethu / hiliaeth sy'n cael eu gwneud gan ddefnyddwyr gwasanaeth o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol. | Gwasanaethau Cymdeithasol | 1 | | n/a | Dros y cyfnod, cafodd un gŵyn ei nodi mewn perthynas â rhagfarn hiliol yn erbyn gweithiwr. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen parhaus i sicrhau bod pob cwyn yn cael ei hadolygu am ragfarn bosibl a bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i ddelio ag ymddygiad gwahaniaethol. |

## Amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2

Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella lles




| | |
|---|---|
| | Coch: ddim yn mynd rhagddo - oedi wrth ddangos cynnydd |
| | Oren: monitro - ychydig o oedi ond ar y trywydd iawn yn bennaf |
| | Gwyrdd : ar y trywydd iawn, wedi'i gwblhau neu'n dangos cynnydd yn unol â'r cynllun |
| | Llwyd: data ar goll |

| Cod Gweithredu | Disgrifiad | Portffolio | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SEP010T | Cefnogaeth ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd i Gymru drwy'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol (GwE) i sicrhau bod storïau, cyfraniadau a hanesion pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu haddysgu. | Addysg ac Ieuenctid | ★ | Cefnogir pob ysgol drwy'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol gyda gweithredu gofynion y cwricwlwm newydd. Mae gan bob ysgol yn Sir y Fflint fynediad at ystod o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol drwy'r cynnig rhanbarthol, yn ogystal â chymorth a chyngor pwrpasol drwy eu Hymgynghorydd Gwella Ysgolion dynodedig. |
| SEP011T | Cysylltu â chyrff llywodraethu i'w hannog i benodi arweinydd gwrth-hiliaeth. | Addysg ac Ieuenctid | ★ | Mae pob corff llywodraethu wedi cael eu hatgoffa o'u tanysgrifiad ar gyfer cael mynediad at wefan adnoddau Llywodraethwyr Cymru, sy'n cynnwys manylion ynghylch penodi Llywodraethwr Cyswllt fel Arweinydd Gwrth-Hiliaeth. |
| SEP012T | Gofyn i GwE gynnwys yn eu gwaith monitro a gwerthuso gydag ysgolion pa gynnydd sy'n cael ei wneud gan ein hysgolion i sicrhau bod storïau, cyfraniadau a hanesion pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu haddysgu ar draws y cwricwlwm. | Addysg ac Ieuenctid | ★ | O fis Medi 2024 ymlaen, bydd swyddogion gwella ysgolion rhanbarthol GwE yn monitro sut mae ysgolion yn bodloni gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru ac yn benodol y defnydd o storïau, cyfraniadau a hanesion pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu haddysgu mewn ysgolion. |
| SEP013T | Parhau i hyrwyddo mynediad at Hwb fel platfform digidol a chefnogaeth ar gyfer ysgolion i gynnwys amrywiaeth o fewn y cwricwlwm. | Addysg ac Ieuenctid | ★ | Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn dathlu'r amrywiaeth ddiwylliannol, gymdeithasol a hanesyddol yng Nghymru a thu hwnt. Caiff ysgolion eu hatgoffa i sicrhau bod pynciau a deunyddiau'n cynrychioli amrywiaeth o ddiwylliannau, hunaniaethau a phrofiadau. Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu am ystrydebau, rhagfarn a gwahaniaethu. Mae'r Ymgynghorydd Dysgu Digidol yn cyfeirio ysgolion yn rheolaidd at ddefnyddio Hwb gyda'r ystod gynyddol o adnoddau sydd ar gael. |
| SEP014T | Dadansoddi adroddiadau arolygu ysgolion i sicrhau bod ysgolion yn cynnwys storïau, cyfraniadau a hanesion pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y cwricwlwm. | Addysg ac Ieuenctid | ★ | Cwblhawyd dadansoddiad o adroddiadau arolygu Estyn ar gyfer y flwyddyn academaidd flaenorol, a thynnir sylw at rai enghreifftiau isod, er mwyn rhoi blas o'r gwaith sy'n mynd rhagddo mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn Sir y Fflint. Ar nodyn cadarnhaol, nid oedd yr un o adroddiadau Arolygu Estyn ar gyfer ysgolion Cynradd ac Uwchradd Sir y Fflint a ddadansoddwyd yn cynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer gwella'r defnydd o storïau, cyfraniadau a hanesion pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a addysgir. Dyma rai o'r sylwadau:<br>*Mae disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn digwyddiadau diwylliannol, megis yr eisteddfod ysgol flynyddol, ac yn cefnogi wythnos Hanes Cymru a Hanes Pobl Dduon. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu proffiliau cymeriad llawn gwybodaeth yn Gymraeg am bobl dduon dylanwadol, megis Betty Campbell. At ei gilydd, mae'r ysgol wedi datblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol Cymru yn briodol.*<br>*Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn defnyddio geirfa gyfoethog, er enghraifft wrth ysgrifennu am y cysylltiadau rhwng Treffynnon a'r fasnach gaethwasiaeth, maent yn defnyddio ansoddeiriau mewn modd llawn dychymyg, er mwyn dod ag effaith y siwrneiau ar y môr ar gaethweision unigol yn fyw. Mae'r disgyblion hŷn yn amgyffred pwysigrwydd cydraddoldeb a chynhwysiant fel rhan o brosiect llafaredd sy'n gysylltiedig â'r fasnach gaethwasiaeth a chefnogi teuluoedd mewn gwledydd sy'n datblygu.* |


| Cod Gweithredu | Disgrifiad | Portffolio | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SEP015T | Parhau i weithio gydag ysgolion i wneud defnydd effeithiol o’r system adrodd ar fwlio ar sail hunaniaeth ar-lein. | Addysg ac Ieuenctid | ● | Mae platfform adrodd ar-lein ar waith i ysgolion adrodd i'r awdurdod lleol am achosion o fwlio ar sail hunaniaeth drwy Flintshire Workspace. Caiff y data hwn ei adolygu bob tymor a'i adrodd i'r panel Diogelu Addysg ac Ieuenctid. Caiff data ei ystyried yn y grŵp Digwyddiadau a Throseddau Casineb, sy’n un o is-grwpiau’r Bwrdd Cydraddoldeb. Caiff ei ystyried ochr yn ochr â ffynonellau data eraill er mwyn nodi ble y dylid darparu cefnogaeth wrth weithio gyda phartneriaid.<br>Serch hynny, nid yw pob ysgol yn defnyddio platfform adrodd ‘Flintshire Workspace’ gan eu bod yn cofnodi ar eu system rheoli amddiffyn plant ar-lein eu hunain. Mae gwaith parhaus wedi bod ar y gweill i sefydlu cytundeb rhannu data awdurdod lleol gan ddefnyddio'r system hon a fydd yn galluogi'r awdurdod lleol i adrodd yn fwy cywir ar ôl ei weithredu. |
| SEP016T | Cefnogi ysgolion i fodloni gofynion system casglu data ac adrodd ar fwlio ar sail hunaniaeth pan fydd yn cael ei rhoi ar waith. | Addysg ac Ieuenctid | ▲ | Nid oes system adrodd a chasglu data ar gyfer achosion o fwlio ar sail hunaniaeth ledled Cymru wedi’i sefydlu eto, ac felly nid oes modd i ni fwrw ymlaen â’r cam hwn ar hyn o bryd. |
| SEP017T | Cwblhau dadansoddiad o dueddiadau bob tymor. Darparu adborth rheolaidd i Ffederasiynau Penaethiaid Ysgolion Cynradd ac Uwchradd.<br>Darparu cymorth pwrpasol i ysgolion unigol yn ôl yr angen. | Addysg ac Ieuenctid | ★ | Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu data a nodi tueddiadau. Darperir cymorth i ysgolion unigol yn ôl yr angen. |
| SEP018T | Sicrhau bod ystod o ymyriadau priodol (rhai cyffredinol ac wedi’u targedu) ar gael i ysgolion er mwyn diwallu anghenion lles dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr LHDTC+. | Addysg ac Ieuenctid | ● | Mae pedair ysgol uwchradd yn parhau i weithio tuag at wobr Baner yr Enfys gan y Proud Trust. Mae gwaith parhaus yn mynd rhagddo i gynllunio ar gyfer digwyddiad Pride mewn ysgolion uwchradd. |
| SEP019T | Parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol, yn cynnwys Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a Rhwydwaith Cydraddoldeb Hil Gogledd Cymru i gefnogi lles dysgwyr Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig. | Addysg ac Ieuenctid | ★ | Mae prosiect 'Arweinwyr Heddiw’, menter Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, wedi’i ymestyn i bedair ysgol uwchradd yn Sir y Fflint, lle mae'n cael ei arwain gan ddisgyblion sy’n llysgenhadon gwrth-hiliaeth gyda chefnogaeth y swyddog Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth bob tymor. Cafodd ysgolion eu nodi yn seiliedig ar angen. Mae hon yn ymyrraeth sy’n cael ei hariannu. |
| SEP020T | Hyrwyddo canllawiau Llywodraeth Cymru (pan fyddant ar gael) ar Wahardd o’r Ysgol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion mewn perthynas â dysgwyr y gwyddom y gallant gael eu gwahardd yn barhaol neu dros dro mewn ffordd anghymesur. | Addysg ac Ieuenctid | ● | Mae ysgolion yn rhoi gwybod yn uniongyrchol i’r Awdurdod Lleol am bob gwaharddiad parhaol, fel proses bwrpasol a chyhoeddedig ac yn unol â Chanllaw Gwaharddiadau LIC. Caiff pob Gwaharddiad Cyfnod Penodol ei broffilio bob tymor gan yr Uwch Dîm Gwybodaeth Rheoli a'i rannu â’r Uwch Ymgynghorydd Dysgu. Mae’r gweithgaredd monitro hwn yn sicrhau bod canllawiau LIC yn cael eu dilyn a’u hyrwyddo i ysgolion a rhieni.<br>Yn 2025/26, mae dulliau gwell yn cael eu harchwilio i gefnogi disgyblion sydd wedi’u gwahardd ac yn defnyddio gwasanaethau’r Cygnor a bydd hyn o bosibl yn gwella’r gwaith o hyrwyddo’r canllawiau yn y maes targed hwn ymhellach. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| SEP021T | Parhau i fonitro ac adolygu gwaharddiadau yn ôl nodweddion gwarchodedig i sicrhau nad oes cynrychiolaeth anghyfrannol. | Addysg ac Ieuenctid | | Mae ysgolion yn rhoi gwybod yn uniongyrchol i'r Awdurdod Lleol am bob gwaharddiad parhaol, fel proses bwrpasol a chyhoeddedig ac yn unol â Chanllaw Gwaharddiadau LlC. Mae'r Uwch Dîm Gwybodaeth Rheoli yn proffilio pob Gwaharddiad Cyfnod Penodol bob tymor ac fe'u rhennir â'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu. Mae'r gweithgaredd monitro hwn yn sicrhau bod canllawiau LlC yn cael eu dilyn a'u hyrwyddo i ysgolion a rhieni. Yn ogystal, caiff achos pob disgybl sy'n destun gwaharddiad parhaol ei agor gan yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu fel un pwrpasol ac mae dadansoddiad llawn o'r sefyllfa a'r nodweddion wedi'i gynnwys yn yr asesiad hwn.<br>Yn 2025/26, mae dulliau gwell yn cael eu harchwilio i gefnogi disgyblion sydd wedi'u gwahardd ac yn defnyddio gwasanaethau'r Cyngor a bydd hyn o bosibl yn gwella'r gwaith o hyrwyddo'r canllawiau yn y maes targed hwn ymhellach, gyda phroffiliau o nodweddion penodol yn cael eu hystyried. |

| Cod Gweithredu | Disgrifiad | Portffolio | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SEP022T | Nodi cyfleoedd ar gyfer a chynnwys camau gweithredu i gynyddu cyfleoedd i gael mynediad at y Gymraeg gan gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn y gymuned o fewn Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor 2024- 2029. | Rhaglen Gyfalaf ac Asedau | | Rydym yn gweithio gyda sefydliadau eraill yng Ngogledd Ddwyrain Cymru i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a chyflwyno'r Gymraeg i bobl sy'n newydd i Sir y Fflint.<br><br>Mae'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg wrthi'n cael ei datblygu a bydd yn cynnwys camau gweithredu i hyrwyddo'r Gymraeg i bobl sy'n newydd i Gymru ac o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. |
| SEP023T | Cynnwys gofyniad i gwblhau gwaith monitro cydraddoldeb buddiolwyr prosiectau iaith Gymraeg o fewn y contract Cyllid Strategol gyda Mudiad Meithrin a Menter Iaith Fflint a Wrecsam. | Addysg ac Ieuenctid | | Mae gan y ddau sefydliad sy'n derbyn cyllid strategol gontractau newydd ar waith sy'n nodi'n glir y gofynion o ran monitro cydraddoldeb. |
| SEP024T | Gweithredu'r Canllawiau Cenedlaethol ar fod yn Drawsrywiol ar gyfer Ysgolion gan Lywodraeth Cymru (pan fyddant ar gael). | Addysg ac Ieuenctid | | Mae Llywodraeth Cymru wedi gohirio'r ymgynghoriad ar y canllawiau ac o ganlyniad nid oes modd i ni allu bwrw ymlaen â'r cam gweithredu hwn ar hyn o bryd. |
| SEP025T | Parhau i weithio mewn partneriaeth i ddarparu Fforwm Ieuenctid LHDTC+. | Addysg ac Ieuenctid | | Mae gwaith partneriaeth yn parhau o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid i gefnogi pobl ifanc LHDT+ a sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed. |

## Amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol 3

Cymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod y gweithlu'n cynrychioli'r boblogaeth leol a sicrhau tâl cyfartal ar gyfer gwaith cyfartal.




| | |
|---|---|
| | Coch: ddim yn mynd rhagddo - oedi wrth ddangos cynnydd |
| | Oren: monitro - ychydig o oedi ond ar y trywydd iawn yn bennaf |
| | Gwyrdd : ar y trywydd iawn, wedi'i gwblhau neu'n dangos cynnydd yn unol â'r cynllun |
| | Llwyd: data ar goll |




| | |
|---|---|
| | Coch: targed wedi'i fethu a thu allan i'r ystod a oddefir |
| | Oren: targed wedi'i fethu ac o fewn yr ystod a oddefir |
| | Gwyrdd: targed wedi'i gyflawni |
| | Llwyd: data ar goll |

## Diweddariadau Chwarterol ar y Cynllun Gweithredu

| Cod Gweithredu | Disgrifiad | Portffolio | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| CHR003T | Cynnal tâl cystadleuol a gwobrwyo, a thelerau ac amodau cyflogaeth. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ● | Mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo. Mae cost y model a ffefrir sy'n dod i'r amlwg, wedi cael ei gyfrifo (ac eithrio swyddi gwag) gan gynnwys cynnydd cynyddrannol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. O ystyried yr heriau cyllidebol parhaus, mae'n bosibl y bydd y ffrwd waith hon yn cael ei hoedi (neu'n dod i ben). |
| CHR007T | Hyrwyddo Rhaglen Cymorth Gweithwyr y Cyngor i gynyddu defnydd. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ★ | Nid yw'r data gan Vivup i'w gyflwyno tan ddiwedd y mis, felly nid oes modd darparu'r ystadegau diweddaraf ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn seiliedig ar yr adborth a'r niferoedd sydd wedi manteisio ar y cynnig hyd yma, mae'r newid i Vivup wedi bod yn gam cadarnhaol. |

| Cod Gweithredu | Disgrifiad | Portffolio | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SEP026T | Gwella prosesau recriwtio i leihau rhagfarn ddiarwybod. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ● | Mae hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod wedi'i ddarparu i reolwyr sy'n recriwtio. |
| SEP027T | Sicrhau bod polisïau newydd a chyfredol yn ystyriol o deuluoedd. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ? | Caiff Asesiadau Effaith Integredig eu cwblhau ar gyfer polisïau newydd a diwygiedig fel mater o drefn, gan sicrhau eu bod yn ystyriol o deuluoedd lle bo hynny'n berthnasol. |
| SEP028T | Cwblhau'r adroddiad Bwlch Cyflog Rhywedd. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ★ | Mae adroddiad ar gyflog y rhywiau 2024/25 yn cynnwys cynllun gweithredu i leihau bylchau cyflog a nodwyd. Disgwylir iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mawrth 2026. |
| SEP029T | Rhoi mentrau ar waith i annog gweithwyr i gwblhau data monitro cydraddoldeb a lleihau nifer y gweithwyr sy'n dewis y categori "Mae'n well gen i beidio â dweud". | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ★ | Darperir adroddiadau chwarterol ar niferoedd staff ac amrywiaeth i bob uwch dîm rheoli. Newid y broses sefydlu i annog y rhai nad ydynt wedi cwblhau'r archwiliad amrywiaeth i'w gwblhau drwy'r system Hunan Wasanaeth Gweithwyr. |
| SEP030T | Gweithredu'r modiwl hyfforddiant ymwybyddiaeth o LHDTC+ newydd. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ✔ | Cwblhawyd y cam gweithredu hwn 100%. Mae'r modiwl e-ddysgu ar gael bellach. |
| SEP031T | Sicrhau bod gweithwyr LHDTC+ yn mynychu'r hyfforddiant ymwybyddiaeth o LHDTC+ a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru pan fo ar gael, i sicrhau bod gweithwyr yn deall anghenion, hawliau a rhwystrau unigolion LHDTC+. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ● | Nid oes hyfforddiant LHDTC+ ar gael gan Lywodraeth Cymru eto. O bosibl y caiff ei ohirio nes bod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn diweddaru eu Cod Ymarfer statudol. Fodd bynnag, mae gennym ein modiwl e-ddysgu LHDTC+ ein hunain. |
| SEP032T | Ymgorffori Fframwaith Ymddygiad Arweinyddiaeth pan gaiff ei ddatblygu gan Academi Wales o fewn gwerthoedd Cyngor Sir y Fflint. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ● | Mae'r gwerthoedd wedi'u hymgorffori mewn proses rheoli perfformiad amgen ddrafft (sgyrsiau perfformiad). |
| SEP033T | Adolygu'r broses sefydlu fel ei bod yn cynnwys dim goddefgarwch i hiliaeth. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ★ | Mae'r rhaglen Sefydlu Rheolwyr yn fyw erbyn hyn. Mae'r broses sefydlu gweithwyr wrthi'n cael ei datblygu ac ni fydd yn cynnwys unrhyw oddefgarwch i hiliaeth. |
| SEP034T | Darparu hyfforddiant ar Droseddau Casineb i bob gweithiwr. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ● | Mae'r hyfforddiant hwn ar gael ar ein Hacademi ar-lein. Mae'n rhan o'r hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob gweithiwr |
| SEP035T | Parhau i ddarparu hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod i reolwyr sy'n recriwtio. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ● | Mae Hyfforddiant ar Ragfarn Ddiarwybod yn dal i gael ei ddarparu. Mae hyn yn mynd rhagddo nawr. |
| SEP036T | Sicrhau bod yr holl ddata cydraddoldeb yn cael ei gasglu wrth recriwtio a'i brosesu. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ● | Nid yw'r cyfleuster ar gael drwy iTrent ar hyn o bryd. Byddwn yn archwilio dewisiadau yn y dyfodol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| SEP037T | Dadansoddi'r canlyniadau a datblygu targedau a chamau gweithredu er mwyn sicrhau bod amrywiaeth y gweithlu yn adlewyrchu cyfansoddiad ethnig poblogaeth Sir y Fflint. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ★ | Mae'r adroddiad Cydraddoldeb mewn Cyflogaeth wrthi'n cael ei gyfieithu ac mae'n cynnwys camau gweithredu i wella. |

| Cod Gweithredu | Disgrifiad | Portffolio | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SEP038T | Monitro proffil cydraddoldeb hyfforddeion a phrentisiaid rheoli. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ★ | Data Monitro ar gyfer Prentisiaid. 55.33% yn ferched a 46.67% yn ddynion. O ran proffil oedran, mae 80% rhwng 16 a 24 oed. Mae'r 20% arall rhwng 25 a 44 oed. Nid yw data arall yn bendant gan fod dros 50% wedi dewis "Mae'n well gen i beidio â dweud". Mae carfannau datblygu rheolwyr yn dangos rhaniad o 66% o ferched a 34% o ddynion ar draws pob lefel. Mae cyfranogiad ar draws pob grŵp oedran ac mae'r mwyafrif yng nghanol eu 30au. Mae data arall yn dal i fod yn amhendant, gan fod nifer wedi nodi ymateb "Mae'n well gen i beidio â dweud". |
| SEP039T | Sicrhau bod rheolwyr sy'n recriwtio yn mynychu hyfforddiant ar weithredoedd positif pan fo ar gael. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ★ | Cafodd un sesiwn ei darparu ar gyfer Adnoddau Dynol. Nid oes rhagor o ddyddiadau wedi'u rhyddhau ar gyfer yr hyfforddiant hwn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). |
| SEP040T | Llunio amserlen ar gyfer adolygu polisïau gan sefydliadau sy'n cynrychioli pobl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig, gan ddechrau gyda pholisi Urddas yn y Gwaith. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ★ | Mae rhaglen dreigl ar gyfer adolygu polisïau cyflogaeth, a chynhelir ymgynghoriad ar bob un gydag Undebau Llafur cydnabyddedig. Cwblheir Asesiadau Effaith Integredig ar gyfer polisïau newydd a diwygiedig. |
| SEP041T | Rheolwyr yn mynychu hyfforddiant gwrth-hiliaeth. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ★ | Mae nifer o weithdai hyfforddiant gwrth-hiliaeth wedi'u darparu i reolwyr. Mae hyn yn dal ar y rhaglen a bydd yn parhau trwy gydol 2026. |
| SEP042T | Parhau i gynnwys y bwlch cyflog ethnigrwydd yn yr adroddiad Cyflog Cyfartal blynyddol. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ✓ | Mae hyn wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad ar Gyflog y Rhywiau. |
| SEP043T | Creu holiadur ar Survey Monkey, yn cynnwys cwestiynau monitro cydraddoldeb, i'w ddosbarthu i bawb sy'n gadael, yn ychwanegol i'r holiadur cyfweliad ymadael. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ✓ | Mae holiadur monitro cydraddoldeb yn rhan safonol o'r Arolwg Ymadael. |
| SEP044T | Dadansoddi canlyniadau yn ôl nodwedd warchodedig. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ★ | Caiff canlyniadau eu hadolygu o bryd i'w gilydd, er mwyn nodi unrhyw dueddiadau/ patrymau. |
| SEP045T | Llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r anghymesuredd. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ★ | Nid oes unrhyw anghymesuredd wedi'i nodi hyd yma. |
| SEP046T | Rhannu'r arolwg yn ôl nodweddion gwarchodedig. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ★ | Ni chynhaliwyd unrhyw arolygon gweithwyr yn ystod 2024/25. Mae pob arolwg gweithwyr yn cynnwys cwestiynau monitro cydraddoldeb fel safon. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| SEP047T | Adolygu cymalau mewn grantiau er mwyn sicrhau bod ymrwymiad i gydraddoldeb a gwrth-hiliaeth yn glir. | Rhaglen Gyfalaf ac Asedau | ✔ | Mae cymal ar Gydraddoldeb wedi'i gynnwys yn nhempled contract y grantiau sydd wedi'i ddatblygu gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Mae'r cymal yn ymwneud â chydymffurfio gyda Deddf Cydraddoldeb 2010 a’r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol. |
| SEP048T | Adolygu gweithdrefnau/ polisi caffael er mwyn sicrhau y canolbwyntir ar gydraddoldeb hiliol wrth ddewis partneriaid, darparwyr a chyflenwyr. | Rhaglen Gyfalaf ac Asedau | ✔ | Yn achos Tendrau contractau gwerth mwy na £24,000 gan gynnwys TAW, mae'n ofynnol bod cynigwyr yn ymateb i gyfres o gwestiynau cyn cymhwyso, sy’n cynnwys cwestiynau’n ymwneud â Chydraddoldeb, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a Holiadur Caffael Sengl Cymru. |
| SEP049T | Sicrhau bod Darparwyr Dysgu yn mabwysiadu dull gwrth-hiliaeth. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | ★ | Mae hyn wedi cael ei ymgorffori a bydd yn parhau i gael ei gynnwys wrth gaffael darparwyr hyfforddiant. |
| SEP050T | Parhau i werthuso a pheilota’r offeryn Asesiad Effaith Integredig newydd a gweithredu unrhyw argymhellion ar gyfer gwella. | Rhaglen Gyfalaf ac Asedau | ✔ | Mae peilot o'r offeryn Asesiad Effaith Integredig wedi’i gwblhau gyda Phrifysgol Manceinion. Mae'r Brifysgol wedi paratoi eu hadroddiad terfynol ond maent yn dal i ddarparu cymorth tan fis Mawrth 2026. |


| Cod Gweithredu | Disgrifiad | Portffolio | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SEP051T | Darparu hyfforddiant gwrth-hiliaeth er mwyn sicrhau bod gan y sawl sy’n gwneud penderfyniadau e.e. Aelodau Etholedig, fwy o wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau sy’n bwysig o ran gwrth-hiliaeth. | Llywodraethu | ★ | Mae hyfforddiant wedi cael ei gynnig i Aelodau. Bydd y niferoedd sy’n cymryd rhan yn cael eu monitro. Gofynnir i Arweinwyr Grwpiau helpu gyda chefnogi ac annog mwy i gymryd rhan. |

Diweddariadau Blynyddol ar y Mesur

| Cod y Mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Portffolio | Gwirioneddol | Targed | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SEP005M | Canran y gweithwyr sydd wedi cwblhau hyfforddiant ar droseddau casineb. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | 80.0% | 100.0% | ▲ | Mae'r adnodd Troseddau Casineb yn dal ar gael ar ein Hacademi Ar-lein ac mae wedi'i gynnwys yn ein cyfres Hyfforddiant Gorfodol. |
| SEP006M | Canran y rheolwyr sy'n recriwtio sydd wedi cwblhau hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | 34.0% | 100.0% | ▲ | Parhaus, mae 34% o reolwyr wedi'i gwblhau. |
| SEP007M | Canran y gweithwyr sydd wedi llenwi'r cwestiwn ethnigrwydd ar yr holiadur monitro cydraddoldeb. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | 66.5% | | Amherthnasol | |
| SEP008M | Canran y rheolwyr sy'n recriwtio sy'n mynychu hyfforddiant gweithredoedd positif. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | 0.0% | 100.0% | ▲ | Caiff hyn ei ddarparu gan CLILC ac nid yw wedi cael ei ddatblygu eto. |
| SEP009M | Canran y rheolwyr sydd wedi mynychu hyfforddiant gwrth-hiliaeth. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | 40.0% | 100.0% | ▲ | Mae 40% o reolwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn ac mae rhagor o ddyddiadau wedi'u trefnu. |
| SEP010M | Nifer / Canran yr achosion o hiliaeth a adroddwyd gan weithwyr drwy'r polisi Urddas yn y Gwaith. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | 0.0% | 0.0% | Amherthnasol | Ni chafodd unrhyw ddigwyddiadau eu hadrodd yn ystod y chwarter. |
| SEP011M | Y bwlch cyflog rhwng gweithwyr o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig a gweithwyr eraill. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | 0.0% | 0.0% | Amherthnasol | Adroddir ar y bwlch cyflog yn flynyddol. |
| SEP012M | Nifer / Canran y gweithwyr o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig sy'n nodi lefelau boddhad cadarnhaol gyda'r sefydliad. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | 0.0% | 0.0% | Amherthnasol | Mae arolwg o'r gweithlu wrthi'n cael ei lunio ar hyn o bryd. Bydd modd adrodd a gweithredu ar hyn unwaith y bydd y mater wedi dod i ben. |
| SEP013M | Canran yr ymgeiswyr a'r gweithwyr o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu gorgynrychioli neu eu tangynrychioli mewn gweithdrefnau cyflogaeth. | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | 0.0% | 0.0% | Amherthnasol | Bydd yn cael ei adolygu fel rhan o adroddiad Bwlch Cyflog Rhywedd 2024/25 a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Mawrth 2026. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SEP014M | Canran yr Aelodau sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant gwrth-hiliaeth. | Llywodraethu | 25.0% | 100.0% | ▲ | Mae nifer o aelodau wedi mynychu cyrsiau hyfforddi amrywiol ar y pwnc hwn. Bydd Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd yn rhoi sylw i bresenoldeb yn y sesiynau a nodwyd gan CSyFf, er mwyn sicrhau bod negeseuon, cynnwys a darpariaeth yn gyson. Bydd hyn yn digwydd yn chwarter olaf 2025/26. |

| **Amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol 4** |
|---|
| Gwella diogelwch personol i'r holl grwpiau gwarchodedig |




| | |
|---|---|
| (Coch) | Coch: ddim yn mynd rhagddo - oedi wrth ddangos cynnydd |
| (Oren) | Oren: monitro - ychydig o oedi ond ar y trywydd iawn yn bennaf |
| (Gwyrdd) | Gwyrdd : ar y trywydd iawn, wedi'i gwblhau neu'n dangos cynnydd yn unol â'r cynllun |
| (Llwyd) | Llwyd: data ar goll |

## Diweddariadau Chwemisol ar y Cynllun Gweithredu


| Cod Gweithredu | Disgrifiad | Portffolio | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SEP052T | Cofnodi a monitro tueddiadau o aflonyddu ar sail hunaniaeth a brofir gan Ddeiliaid Contractau Tai. | Tai a Chymunedau | ● | Nid ydym wedi gallu dod o hyd i ddata hyd yma, gan ein bod yn aros am system feddalwedd newydd ar gyfer cofnodi. |
| SEP054T | Casglu adroddiadau ar ddigwyddiadau / troseddau casineb gan wasanaethau a Heddlu Gogledd Cymru a'u hadolygu yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol i nodi tueddiadau / ardaloedd hysbys a gweithredu i fynd i'r afael â'r materion. | Rhaglen Gyfalaf ac Asedau | ★ | Mae is-grŵp wedi'i sefydlu ar gyfer y Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol. Mae'r grŵp hwn yn adolygu data troseddau casineb a digwyddiadau o droseddau casineb, a gesglir gan wasanaethau ar draws y Cyngor, er mwyn nodi tueddiadau ac ardaloedd hysbys a nodi ymyriadau yn ôl yr angen. |

## Diweddariadau Blynyddol ar y Mesur

| Cod y Mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Portffolio | Gwirioneddol | Targed | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SEP015M | Nifer yr adroddiadau am ddigwyddiadau casineb yn ôl nodwedd warchodedig fel yr adroddwyd i Heddlu Gogledd Cymru. | Rhaglen Gyfalaf ac Asedau | 223 | 193 | Amherthnasol | Mae cynnydd yn nifer yr adroddiadau o droseddau casineb yn ystod 2024/25, o'i chymharu â 2023/24. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth gan Heddlu Gogledd Cymru ynghylch unrhyw resymau pam y bu cynnydd yn nifer yr adroddiadau. |
| SEP016M | Nifer a % yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar sail hunaniaeth a adroddir gan Ddeiliaid Contractau (tenantiaid tai). | Tai a Chymunedau | | | ? | Gweithredu system feddalwedd newydd ar gyfer casglu'r wybodaeth hon. |


| Amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol 5 |
|---|
| Gwella mynediad at wasanaethau a gwneud penderfyniadau ar gyfer pob grŵp gwarchodedig |

**Statws y Cam**




| | |
|---|---|
| | Coch: ddim yn mynd rhagddo - oedi wrth ddangos cynnydd |
| | Oren: monitro - ychydig o oedi ond ar y trywydd iawn yn bennaf |
| | Gwyrdd : ar y trywydd iawn, wedi'i gwblhau neu'n dangos cynnydd yn unol â'r cynllun |
| | Llwyd: data ar goll |

**Perfformiad y Mesur (COG)**




| | |
|---|---|
| | Coch: targed wedi'i fethu a thu allan i'r ystod a oddefir |
| | Oren: targed wedi'i fethu ac o fewn yr ystod a oddefir |
| | Gwyrdd: targed wedi'i gyflawni |
| | Llwyd: data ar goll |

Diweddariadau Chwarterol ar y Cynllun Gweithredu

| Cod Gweithredu | Disgrifiad | Portffolio | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| CGV014T | Cefnogi pobl i ddefnyddio technoleg ddigidol drwy Gymorthfeydd Digidol. | Llywodraethu | ★ | Mae'r "Sgwad Ddigidol", a hyrwyddir gan yr Arglwydd Barry, yn parhau i gynorthwyo preswylwyr gyda defnyddio gwasanaethau a dyfeisiau digidol mewn lleoliadau ledled y Sir. Yn ystod 2024/25, cynhaliwyd 36 o gymorthfeydd digidol ac mae mwy wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. |
| CGV015T | Parhau i ddarparu mynediad i'r rhyngrwyd yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd yng Nghanolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu. | Llywodraethu | ✔ | Trwy gydol 2024/25, mae holl ganolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu wedi darparu mynediad i'r rhyngrwyd yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd rhwng dydd Llun a dydd Gwener, pan fydd y gwasanaeth ar agor. Mae Ymgynghorwyr Sir y Fflint yn Cysylltu yn cefnogi cwsmeriaid i gael mynediad at y rhyngrwyd a byddant yn cyfeirio cwsmeriaid at gymorthfeydd digidol am gymorth wedi'i dargedu'n well yn ôl yr angen. |
| CPE063T | Cyflawni'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gan ganolbwyntio ar sicrhau gwell mynediad i bawb a darparu'r grant gwella mynediad. | Lle a Thwf | ★ | Darparu dros £81,000 o Grant Gwella Mynediad ar gynlluniau cyfalaf amrywiol. Defnyddiwyd y cyllid i osod giatiau mochyn neu giatiau sy'n cau eu hunain yn lle camfeydd, adeiladu grisiau cerrig, gosod llwybrau pren, rhoi wyneb carreg neu darmac ar lwybrau ac arwyddion ffordd ar y rhwydwaith ac yn benodol ar hyd llwybrau a hyrwyddir. Mae hyn wedi cyflawni rhaglen waith flynyddol eleni ar gyfer cyflawni'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. |
| CST024T | Hyrwyddo teithio llesol a datblygu rhwydwaith cerdded a beicio'r sir yn unol â'r Siarter Teithio Iach. | Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth | ★ | Mae ceisiadau llwyddiannus am gyllid gwerth cyfanswm o £1.612 miliwn wedi'u dyrannu gan Lywodraeth Cymru i gyflawni ystod eang o welliannau Teithio Llesol.<br>Mae'r cynlluniau canlynol yn cael eu cynnig:<br>• **Cylchfan Ewlo - £900,000**: Bydd hyn yn hwyluso'r gwaith o weithredu cyfleusterau croesi yng Nghylchfan Ewlo, gan hyrwyddo mynediad mwy diogel at ysgolion ac amwynderau.<br>• **Datblygu'r Dull o Drin Llwybrau Mwy Diogel Ysgolion (Cei Connah) - £50,000**: Bydd hyn yn arwain at ddatblygu'r llwybrau cerdded a beicio presennol i ysgolion, fel bod modd gwneud ceisiadau am gyllid yn y dyfodol.<br>• **Cyllid Craidd Teithio Llesol - £712,000**: Golyga hyn y bydd modd gweithredu nifer o gynlluniau, gan gynnwys gosod croesfannau i gerddwyr, monitro data'r rhwydwaith beicio, gwneud gwelliannau unigol amrywiol ledled y sir megis darparu cyrbau is a phalmant botymog, a phrynu tir ar gyfer datblygu cynlluniau yn y dyfodol.<br>Mae cynlluniau ar wahanol gamau datblygu ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae'r holl gynlluniau ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau, yn unol ag amodau cyllid grant. |
| CST032T | Cefnogi datblygiad rhwydwaith gwefru cerbydau trydan cyhoeddus. | Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth | ★ | Contract Swarco - estyniad wedi'i lofnodi, disgwylir y bydd rhagor o bwyntiau gwefru yn cael eu gosod yn ystod Chwarter 1 a Chwarter 2, 25/26. Ymgysylltir gydag SP Energy Networks ar hyn o bryd, ynghylch cysylltiadau trydanol ar gyfer meysydd parcio detholedig. Strategaeth Cerbydau Trydan (Cynllun Datgarboneiddio) - cyfarfodydd budd-ddeiliaid wedi'u cwblhau, disgwylir cynllun drafft terfynol ym mis Ebrill 2025. |

| Cod Gweithredu | Disgrifiad | Portffolio | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SEP055T | Gweithredu'r Strategaeth Drafnidiaeth Integredig Ddiwygiedig yn unol ag Adolygiad y Cynllun Cludiant Rhanbarthol. | Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth | Orange circle | Mae'r Cyngor wedi darparu adborth i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar yr Achos dros Newid ynghyd â statws cyfredol prosiectau strategol ac adborth o weithdai aelodau lleol a gynhaliwyd ym mis Hydref 2023. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi penodi ARUP i fwrw ymlaen â dogfen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac mae'r Cyngor wedi cyflwyno ymateb yn cadarnhau blaenoriaethau trafnidiaeth at ddibenion yr ymarfer didoli sydd i ddod. Golyga hyn y bydd modd diweddaru Strategaeth Drafnidiaeth Integredig y Cyngor yn unol â hynny. |
| SEP056T | Gweithredu'r Strategaeth Toiledau Cyhoeddus. | Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth | Orange circle | Nid yw model cyflawni'r Strategaeth Toiledau yn y dyfodol wedi'i gytuno'n llawn. Bydd y strategaeth yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r model newydd unwaith y bydd yn hysbys. |
| SEP057T | Llunio Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer Cyngor Sir y Fflint i sicrhau bod democratiaeth o fewn y Cyngor yn dryloyw, yn gwrando ac yn ymgysylltu. Hyrwyddo dull gwrth-hiliol drwy broses ddemocrataidd ac o ran sut y caiff ymgysylltu democrataidd ei gynnal. | Llywodraethu | Red triangle | Mae'r Pwyllgor wedi bod yn canolbwyntio ar adolygu Cyfansoddiad y Cyngor. Mae wedi'i gynnwys ar y Rhaglen Waith, ar gyfer ei adolygu a'i ystyried. |
| SEP058T | Hyrwyddo ymddygiad gwrth-hiliol a moesegol ymysg aelodau etholedig. Mae angen i Arweinwyr y Grwpiau hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad ymysg eu Haelodau. | Llywodraethu | Orange circle | Arweinwyr Grwpiau sy'n gyfrifol am hyn. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yng nghyfarfodydd Arweinwyr Grwpiau ac fel rhan o gyfarfodydd blynyddol y Pwyllgor Safonau gydag Arweinwyr Grwpiau. |
| SEP059T | Gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynnig hyfforddiant gwrth-hiliaeth i Aelodau Etholedig. | Llywodraethu | Green star | Mae CLILC yn cynnig sesiynau cyfnodol sydd wedi'u targedu ar gyfer Aelodau Etholedig, ac yna cânt eu cynnig i Gynghorwyr. |
| SEP060T | Aelodau Etholedig i gymryd rhan yn hyfforddiant Llywodraeth Cymru (pan fo ar gael) ar ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. | Llywodraethu | Orange circle | Cafodd trefniadau eraill eu gwneud i ddarparu hyfforddiant i Aelodau drwy weithdy. Gan fod y cyrsiau yn cael eu cynnig gan LIC, bydd y rhain ar gael i'r Cynghorwyr. |
| SEP061T | Gweithredu ac adrodd ar y Cynllun Amrywiaeth mewn Democratiaeth. | Llywodraethu | Green star | Mae Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd wedi adolygu'r cynllun blaenorol. Mae wrthi'n cael ei ail-ddrafftio a'i ddiweddaru ar hyn o bryd i'w weithredu cyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf yn 2027. Dyma eitem reolaidd ar Raglen Waith y Pwyllgor. |
| SEP062T | Creu amgylchedd sy'n gwneud i bawb fod eisiau cymryd rhan mewn democratiaeth a theimlo fel eu bod yn gallu gwneud hynny, drwy arfer eu hawl i bleidleisio, drwy ddatblygu deunyddiau i annog pobl i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau a hyrwyddo ymwybyddiaeth o sut i ddod yn Aelod Etholedig. | Llywodraethu | Green star | Mae gwybodaeth ar gael ar y tudalennau gwe Etholiadau a Chofrestru Etholiadol. Caiff rhagor o hyrwyddo ei drefnu cyn unrhyw etholiad mawr. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| SEP063T | Hyrwyddo’r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig ar gyfer yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf yn 2027. | Llywodraethu | | Caiff hyn ei hyrwyddo ar y tudalennau gwe Etholiadau a Chofrestru Etholiadol. Bydd hyn yn cael ei hyrwyddo ymhellach a bydd manylion yn cael eu darparu i ymgeiswyr cyn unrhyw etholiad. |
| SEP064T | Hyrwyddo gwasanaethau dehongli iaith a chyfieithu Big Word. | Llywodraethu | | Caiff Big Word ei hyrwyddo ar yr InfoNet, fel bod modd i bob gwasanaeth gael mynediad ato. Cynhelir cyfarfodydd contractau rheolaidd i fonitro perfformiad gyda’r darparwr gwasanaeth. |


## Diweddariadau Chwarterol ar y Mesur

| Cod y Mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Portffolio | Gwirioneddol | Targed | Perfformiad (COG) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CGV006M | Nifer y Cymorthfeydd Digidol a gynhelir yng Nghanolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu. | Llywodraethu | 6 | 8 | ▲ | Mae'r "Sgwad Ddigidol", a hyrwyddir gan yr Arglwydd Barry, yn parhau i gynorthwyo preswylwyr gyda defnyddio gwasanaethau a dyfeisiau digidol mewn lleoliadau ledled y Sir. Yn ystod 2024/25, cynhaliwyd 36 o gymorthfeydd digidol ac mae mwy wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. |

## Amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol 6


Gwella safonau byw pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol

### Statws y Cam




| | |
|---|---|
| | Coch: ddim yn mynd rhagddo - oedi wrth ddangos cynnydd |
| | Oren: monitro - ychydig o oedi ond ar y trywydd iawn yn bennaf |
| | Gwyrdd : ar y trywydd iawn, wedi'i gwblhau neu'n dangos cynnydd yn unol â'r cynllun |
| | Llwyd: data ar goll |

### Perfformiad y Mesur (COG)




| | |
|---|---|
| | Coch: targed wedi'i fethu a thu allan i'r ystod a oddefir |
| | Oren: targed wedi'i fethu ac o fewn yr ystod a oddefir |
| | Gwyrdd: targed wedi'i gyflawni |
| | Llwyd: data ar goll |

| Cod Gweithredu | Disgrifiad | Portffolio | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| CHC026T | Mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych, creu System Gaffael Ddeinamig newydd er mwyn sicrhau bod Rheolau'r Weithdrefn Gontractau yn cael eu bodloni ac i ddarparu cyfleoedd ehangach ar gyfer tendro prosiectau Addasiadau i Bobl Anabl. | Tai a Chymunedau | ● | Ar ôl gweithredu'r Ddeddf Gaffael newydd a'r newidiadau sy'n cynnwys fframweithiau a marchnadoedd Dynamig, mae swyddogion wedi cyfarfod gyda chydweithwyr Caffael ac wedi derbyn opsiwn fframwaith newydd ar gyfer adolygu a datblygu. Mae'r risg yn isel gan fod mwy o gontractwyr ar gael nawr ar gyfer swyddi canolig er bod her o hyd o ran rheoli contractau mawr a chyfyngiadau cyllidebol presennol. |
| CHC036T | Canfod safle ar gyfer darpariaeth tai â chymorth i bobl ifanc sy'n cynnig llety a gwasanaethau cefnogi. | Tai a Chymunedau | ● | Cafodd safle posibl ei nodi, fodd bynnag, yn dilyn adolygiad, rhoddwyd diwedd ar y cynllun oherwydd costau uchel a bod cyfamodau cyfyngol wedi'u nodi. Bydd safleoedd posibl eraill addas yn cael eu harchwilio. Rydym yn parhau i gysylltu â chydweithwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg ac Ieuenctid ynghylch darpariaeth yn y dyfodol. |
| CHC037T | Datblygu prosiect adeiladu ar gyfer y ddarpariaeth tai â chymorth newydd. | Tai a Chymunedau | ● | Mae safle wedi'i nodi ac mae nifer o gynlluniau posibl wedi'u drafftio sy'n darparu rhwng 12 a 14 uned. Mae cost y cynllun wedi'i gyfrifo ac mae'r Cyngor wrthi'n trafod y cynigion gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor wrthi'n ymgysylltu â phenseiri, er mwyn datblygu cynigion i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru i gael cymeradwyaeth dechnegol. |
| CHC043T | Gweithredu adolygiad tai gwarchod i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion tenantiaid presennol a darpar denantiaid. | Tai a Chymunedau | ★ | Mae'r adolygiad o Dai Gwarchod yn symud ymlaen i'r cam nesaf nawr bod pob cynllun wedi'i asesu yn erbyn matrics cynaliadwyedd cymeradwy. Bydd pob cynllun yn mynd rhagddo, naill ai er mwyn ail-ddynodi, buddsoddi i fynd i'r afael â materion neu bryderon a nodwyd, neu werthuso opsiynau i archwilio dewisiadau amgen i'r Cyngor eu hystyried. |

| Cod Gweithredu | Disgrifiad | Portffolio | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SEP065T | Y Tîm Digartrefedd i fynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth o LHDTC+ i ddeall hawliau a rhwystrau, yn cynnwys hawliau ymfudwyr LHDTC+ a phobl LHDTC+ sy'n wynebu digartrefedd. | Tai a Chymunedau | ● | Mae swyddogion sydd angen hyfforddiant wedi cael eu nodi ac wedi derbyn dolen i'r modiwl e-ddysgu perthnasol. |
| SEP066T | Gwella sut y caiff data monitro cydraddoldeb pobl sy'n datgan eu bod yn ddigartref ei gasglu. | Tai a Chymunedau | ● | Cafodd Dadansoddwr Data ei recriwtio o fewn y Tîm Digartrefedd, er mwyn canolbwyntio ar gasglu, dadansoddi a gwella data cydraddoldeb, i lywio darpariaeth gwasanaeth a chanlyniadau. Mae'r rôl hon yn cefnogi'r Tîm Digartrefedd drwy gryfhau gwaith casglu a defnyddio data cydraddoldeb er mwyn cael gwell dealltwriaeth a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn well. |
| SEP067T | Gwella sut y caiff data monitro cydraddoldeb Deiliaid Contract ei gasglu. | Tai a Chymunedau | ● | . Penodi Dadansoddwr Systemau i nodi ble mae bylchau yn y system a ble gellir cofnodi'r wybodaeth ar y system Tai Agored |
| SEP068T | Datblygu gwersyll dros dro i Deithwyr i leihau nifer y gwersylloedd heb awdurdod mewn lleoliadau nad ydynt yn ddiogel nac yn iach a gwella mynediad at wasanaethau iechyd. | Tai a Chymunedau | ● | Mae trafodaethau ynghylch darparu safleoedd dros dro yn Sir y Fflint yn rhan o'r rhaglen waith a byddant yn cael eu llywio gan adolygiad LIC i ddarpariaeth safleoedd dros dro ledled Cymru, y mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2025. |
| SEP069T | Sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i alluogi Wi-Fi ar safleoedd Teithwyr yn cynnwys safleoedd dros dro. | Tai a Chymunedau | ★ | Mae Wi-Fi wedi'i osod ar safle'r Awdurdod Lleol ac felly gellir dod â'r cam gweithredu hwn i ben. |
| SEP070T | Asesu addasrwydd y ddarpariaeth bresennol ar gyfer Teithwyr a chynnig unrhyw argymhellion perthnasol. | Tai a Chymunedau | ★ | Rydym wedi sicrhau grantiau cyfalaf safleoedd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod adrodd hwn i wella cyfleusterau ar safle'r Awdurdod Lleol gan gynnwys darparu llecynnau gemau aml-ddefnydd a man diogel i ferched chwarae, maes parcio newydd, gosod mesurau tawelu traffig a chyfleuster biniau newydd. Mae hyn oll yn mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan breswylwyr. |
| SEP071T | Dod yn ardal Adsefydlu i Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid. | Tai a Chymunedau | ★ | Rydym yn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth sy'n geiswyr lloches mewn llety gwasgaredig ledled Sir y Fflint gyda thua 52 o welyau a'r targed gorfodol gan y Swyddfa Gartref yw 275 o welyau. |
| SEP072T | Gweithio gyda chydweithwyr cynllunio i ddatblygu cwmpas ar gyfer comisiynu Asesiad o'r Farchnad Dai Leol gan sicrhau ffocws ar ddeall anghenion tai pobl o leiafrifoedd ethnig yn well a sicrhau bod yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn mynd i'r afael â gofynion canllawiau Llywodraeth Cymru gan gynnwys gorlenwi/ anghenion ffoaduriaid. | Tai a Chymunedau | ● | Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol diwygiedig wedi'i ddiweddaru, ynghyd â'r Strategaeth Tai. |
| SEP073T | Ymchwilio i'r hyfforddiant gwrth-hiliaeth e-ddysgu sydd ar gael drwy Tai Pawb. | Tai a Chymunedau | ● | Mae cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda Tai Pawb, ond nid oes unrhyw ddeunydd e-ddysgu wedi'i ddarparu eto. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| SEP074T | Adeiladu tai fforddiadwy sy’n bodloni anghenion pobl o leiafrifoedd ethnig ac eraill yn eu cymunedau. | Tai a Chymunedau | ● | Mae cartrefi ychwanegol wedi cael eu datblygu gan gynnwys byngalos ar gyfer unigolion a oedd angen cartrefi gyda mynediad gwastad a chartrefi hygyrch i gadeiriau olwyn gydag ystafelloedd gwlyb ac ati. Fe wnaethon ni ddatblygu cynlluniau ar gyfer safle dros dro i Deithwyr. Cynhaliwyd ymgynghoriad gydag amrediad eang o bobl/ sefydliadau mewn perthynas â llunio’r Asesiad o’r Farchnad Dai Leol. Yn dilyn hynny, cafodd y casgliadau a’r rhagamcanion eu cynnwys yn y Strategaeth Tai wedi’i diweddaru. |

| Cod Gweithredu | Disgrifiad | Portffolio | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SEP075T | Ymateb yn gyflym i gwynion am hiliaeth, aflonyddwch a throsedd casineb a chynnig cefnogaeth briodol i ddeiliaid contract (tenantiaid y Cyngor). | Tai a Chymunedau | ● | Defnyddir y system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid corfforaethol ar gyfer codi ymwybyddiaeth, ymchwilio ac adborth/ cefnogaeth. Mae system feddalwedd newydd ar waith i gasglu data. |
| SEP076T | Sicrhau bod gwrth-hiliaeth yn cael ei adlewyrchu yn y Cynllun Ailgartrefu Cyflym. | Tai a Chymunedau | ● | Arweiniodd oedi wrth recriwtio at oedi cyn i'r Cydlynydd Ailgartrefu Cyflym ddechrau yn y swydd.  Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo ar gyfer creu cynllun sengl newydd a fydd yn cynnwys adolygiad o'r Cynllun Ailgartrefu Cyflym presennol, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau’n addas i’r diben ers iddo gael ei ysgrifennu. Fel rhan o'r adolygiad hwn, bydd gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod gwrth-hiliaeth yn cael ei adlewyrchu yn y Cynllun Ailgartrefu Cyflym. |
| SEP077T | Sicrhau bod cefnogaeth yn ymwneud â thai a gomisiynir yn adlewyrchu anghenion cymunedau lleiafrifoedd ethnig. | Tai a Chymunedau | ● | Caiff y gwaith o gomisiynu cymorth cysylltiedig â thai ei lywio gan anghenion cymunedau lleiafrifoedd ethnig ac mewn ymateb iddynt, felly mae asesiad effaith integredig yn cael ei gwblhau bob tro y mae angen tendr newydd. |
| SEP078T | Recriwtio Dadansoddwr Data i wella cysondeb casglu a defnydd data. | Tai a Chymunedau | ● | Fe wnaeth tîm y Strategaeth Tai recriwtio ar gyfer rôl newydd y Dadansoddwr Systemau. Gwnaeth yr unigolyn hwn gynnydd sylweddol mewn perthynas â dadansoddi anghenion drwy’r Un Llwybr Mynediad at Dai, er mwyn llywio allbwn ac adolygiad o’r Un Llwybr Mynediad at Dai a'r adolygiad o dai gwarchod yn well. Cynorthwyodd eu dadansoddiad hefyd gyda llunio’r Asesiad o’r Farchnad Dai Leol diwygiedig, ynghyd â’r Strategaeth Tai wedi’i diweddaru. Yn ogystal, fe wnaethant gynorthwyo i ddarparu data a dadansoddiad o eiddo gwag a helpu i nodi ardaloedd ar gyfer galluogi rheolaeth a monitro gwell ar eiddo gwag mewn modd gweithredol a strategol. |
| SEP079T | Mapio data tai presennol, nodi bylchau a gwella prosesau cofnodi. | Tai a Chymunedau | ● | Mae Dadansoddwr Systemau bellach yn gweithio ar draws y portffolio Tai a Chymunedau ac mae wrthi'n archwilio'r data sydd ar gael eisoes. |

## Diweddariadau Chwarterol ar y Mesur

| Cod y Mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Portffolio | Gwirioneddol | Targed | Perfformiad (COG) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CHC008M | Canran y canlyniadau atal llwyddiannus ar gyfer digartrefedd o dan Ddeddf Tai Cymru 2014. | Tai a Chymunedau | 65.00 | 60.00 | | Ar ddiwedd y flwyddyn, cofnodwyd cyfanswm o 457 o ganlyniadau atal. O'i chymharu â 2023/24 (403), gwelwyd rhywfaint o gynnydd o ran lefelau canlyniadau atal eleni. Fodd bynnag, wrth edrych ar ganlyniadau atal llwyddiannus ar ddiwedd y flwyddyn yn 2024/25, mae'r gwasanaeth wedi cyflawni 299 o ganlyniadau atal cadarnhaol o'i gymharu â 234 yn ystod 2023/24. Mae hyn yn dangos gwelliant yn y gyfradd atal ar ddiwedd y flwyddyn, sef 65% o'i gymharu â'r gyfradd atal o 58% yn 2023/24. Mae canlyniadau atal llwyddiannus yn ymyriadau cadarnhaol gan y Timau Digartrefedd a Chymorth sydd wedi galluogi aelwydydd i osgoi digartrefedd ac aros lle maen nhw, neu symud cyn iddynt ddod yn ddigartref. Cafodd y rhai a ddaeth yn ddigartref gymorth yn unol â hynny gan y Tîm Digartrefedd. |
| CHC009M | Canran y canlyniadau lliniaru llwyddiannus ar gyfer digartrefedd o dan Ddeddf Tai Cymru 2014. | Tai a Chymunedau | 37.00 | 40.00 | | Ar ddiwedd y flwyddyn, cofnodwyd cyfanswm o 883 o ganlyniadau lliniaru. Yn yr un cyfnod adrodd yn y flwyddyn flaenorol, cofnodwyd cyfanswm o 689 o ganlyniadau lliniaru. Canlyniadau lliniaru yw pan fo aelwyd yn ddigartref yn statudol a lle mae aelwydydd digartref yn cael eu cefnogi i adael digartrefedd trwy sicrhau tai sefydlog neu ddychwelyd adref os yw'n ddiogel ac yn addas i wneud hynny. Yn ystod 2024/25, cyflawnwyd 323 o ganlyniadau lliniaru cadarnhaol. Mae hyn yn dangos cyfradd lliniaru gadarnhaol o 37%. Roedd y canlyniadau aflwyddiannus a gofnodwyd yn ystod y cyfnod fel a ganlyn: lliniaru aflwyddiannus (308), diffyg cydweithrediad (52), gwrthod cymorth (35), ceisiadau a dynnwyd yn ôl (83), colli cysylltiad (56), camgymryd ffaith (1) a ddim yn gymwys mwyach (26). Mae achosion lliniaru aflwyddiannus yn parhau i weithio gyda'r Cyngor a bydd y rhan fwyaf o achosion yn cael eu lletya mewn llety dros dro. O ran pob canlyniad aflwyddiannus arall, bydd yr achosion wedi'u cau. |
| CHC026M | Nifer yr addasiadau bach sydd wedi cael eu cwblhau i bobl anabl. | Tai a Chymunedau | 798.00 | 320.00 | | Gwelwyd cynnydd amlwg yn nifer yr atgyfeiriadau, ac mae hyn wedi bod yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae pobl yn byw'n hirach ac yn aros yn eu cartrefi, felly maent yn gofyn am fwy o addasiadau. |
| CHC027M | Nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i gwblhau addasiad bach i berson anabl. | Tai a Chymunedau | 11.00 | 28.00 | | Mae Gofal a Thrwsio yn ymgymryd â phob addasiad bach ac yn bodloni'r amserlenni targed o ran cwblhau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | gwaith. |


| Cod y Mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Portffolio | Gwirioneddol | Targed | Perfformiad (COG) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CHC034M | Cyfanswm yr addasiadau sydd wedi cael eu cwblhau i bobl anabl. | Tai a Chymunedau | 914.00 | 428.00 | | Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd cynnydd aruthrol yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer addasiadau bach drwy Gofal a Thrwsio a chynnydd o ran addasiadau canolig eu maint drwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>Mae pobl yn byw'n hirach ac eisiau aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, gan olygu bod cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer ystafelloedd gwlyb a rampiau. |
| CHC039M | Nifer yr addasiadau canolig gorfodol neu ddewisol sydd wedi cael eu cwblhau i bobl anabl. | Tai a Chymunedau | 109.00 | 100.00 | | Dim ond un syrfëwr oedd ar gael ar gyfer yr holl addasiadau, felly cafodd hyn effaith andwyol ar gwblhau addasiadau. |
| CHC042M | Nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i gwblhau addasiad canolig i berson anabl. | Tai a Chymunedau | 154.00 | 122.00 | | Mae anawsterau o ran adnoddau yn y gwasanaeth wedi cael effaith andwyol ar berfformiad. Rhoddir sylw i hyn ar hyn o bryd, a fydd yn helpu i sicrhau bod perfformiad yn ôl ar y trywydd iawn. |
| CHC043M | Cyfanswm yr addasiadau mawr sydd wedi cael eu cwblhau i bobl anabl. | Tai a Chymunedau | 7.00 | 8.00 | | Dim ond un syrfëwr oedd ar gael ar gyfer yr holl addasiadau; cafodd hyn effaith andwyol ar gwblhau addasiadau. |
| CHC044M | Nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i gwblhau addasiad mawr i bobl anabl. | Tai a Chymunedau | 599.00 | 456.00 | | Mae anawsterau o ran adnoddau yn y gwasanaeth wedi cael effaith andwyol ar berfformiad. Rhoddir sylw i hyn ar hyn o bryd, a fydd yn helpu i sicrhau bod perfformiad yn ôl ar y trywydd iawn. |

## Diweddariadau Blynyddol ar y Mesur

| Cod y Mesur | Disgrifiad o’r Mesur | Portffolio | Gwirioneddol | Targed | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SEP017M | Nifer a % y Tîm Digartrefedd sy’n mynychu hyfforddiant penodol ar ymwybyddiaeth o LHDTC+. | Tai a Chymunedau | 37.0% | 73.0% | Amherthnasol | Mae angen hyfforddiant ar 73 o weithwyr ac mae 37 ohonynt wedi cwblhau’r hyfforddiant hwn. Gwelwyd cynnydd yn nifer y gweithwyr sydd angen hyfforddiant, yn dilyn proses ailstrwythuro a recriwtio. |
| SEP018M | % y data cydraddoldeb a gedwir ar bobl sy’n datgan eu bod yn ddigartref. | Tai a Chymunedau | 0.0% | 20.0% | Amherthnasol | Cafodd Dadansoddwr Data ei recriwtio o fewn y Tîm Digartrefedd, gan ganolbwyntio ar gasglu, dadansoddi a gwella data cydraddoldeb, i lywio darpariaeth gwasanaeth a chanlyniadau. Mae'r rôl hon yn cefnogi'r Tîm Digartrefedd drwy gryfhau gwaith casglu a defnyddio data cydraddoldeb er mwyn cael gwell dealltwriaeth a mynd i’r afael ag anghydraddoldebau yn well. |
| SEP019M | % y data cydraddoldeb a gedwir ar Ddeiliaid Contractau (Tenantiaid y Cyngor). | Tai a Chymunedau | 0.0% | | Amherthnasol | Nid oes gan y Gwasanaeth y cyfleuster i gofnodi ac adrodd ar y wybodaeth hon ar hyn o bryd. |

**Amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol 7**

Lleihau effaith tlodi a chynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol o fewn y sefydliad.




| | |
|---|---|
| | Coch: ddim yn mynd rhagddo - oedi wrth ddangos cynnydd |
| | Oren: monitro - ychydig o oedi ond ar y trywydd iawn yn bennaf |
| | Gwyrdd : ar y trywydd iawn, wedi'i gwblhau neu'n dangos cynnydd yn unol â'r cynllun |
| | Llwyd: data ar goll |




| | |
|---|---|
| | Coch: targed wedi'i fethu a thu allan i'r ystod a oddefir |
| | Oren: targed wedi'i fethu ac o fewn yr ystod a oddefir |
| | Gwyrdd: targed wedi'i gyflawni |
| | Llwyd: data ar goll |

# Diweddariadau Chwarterol ar y Cynllun Gweithredu

| Cod Gweithredu | Disgrifiad | Portffolio | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| CHC004T | Datblygu ein canolbwynt cymunedol ymhellach gan roi mynediad i amrywiaeth o raglenni, gwasanaethau ac asiantaethau ynghyd mewn un lle. | Tai a Chymunedau | ✔ | Rydym yn parhau i weithio ar ddatblygu canolbwyntiau cymunedol, er mwyn darparu ystod ehangach o wasanaethau i breswylwyr, gan sicrhau dull gwasanaeth cyfan a thargedu anghenion cymunedol. |
| CHC050T | Archwilio datblygiad cynlluniau cymorth i liniaru tlodi yn y gwaith. | Tai a Chymunedau | ★ | Rydym yn parhau i gefnogi aelwydydd i liniaru effeithiau tlodi yn y gwaith drwy hyrwyddo Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai (DHP) a chyngor ynghylch cyllidebu i wneud y mwyaf o incwm. |
| CHC053T | Parhau i gyflwyno gwasanaeth cludo a danfon bwyd “Prydau Symudol” i unigolion diamddiffyn. | Tai a Chymunedau | ★ | Mae siopau symudol ‘Well-fed’ wedi llwyddo i gludo prydau parod a chynhwysion coginio ffres i’r rheiny a nodwyd fel rhai diamddiffyn. Mae pecynnau i goginio pryd mewn crochan araf bellach ar gael i’w prynu. |
| CHC054T | Parhau i ddatblygu a darparu gwasanaeth prydau “Adre o'r Ysbyty”. | Tai a Chymunedau | ● | Mae peilot y gwasanaeth Adre o’r Ysbyty wedi’i ymestyn ac mae swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'r tîm rhyddhau, er mwyn gwella, hyrwyddo a darparu’r gwasanaeth i breswylwyr sydd angen cymorth. Mae'r gwasanaeth yn datblygu'r llwybr atgyfeirio ac yn cynyddu nifer yr ysbytai sy'n gallu cael mynediad at y gwasanaeth. |
| CHC056T | Sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn manteisio ar y cynllun Taliad Disgresiwn at Gostau Tai a chefnogaeth ariannol arall. | Tai a Chymunedau | ★ | Gydag effaith barhaus yr argyfwng costau byw a rhenti cynyddol, cafodd dyraniad y Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ei wario'n llawn yn 2024/25. Mae'r dyraniad cyllid gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn aros yr un fath ar gyfer 2025/26. Mae atgyfeiriadau’n parhau i gael eu derbyn ac mae cyngor a chefnogaeth barhaus yn rhan o’r broses ymgeisio am Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai, hyd yn oed pan fydd cais yn aflwyddiannus. Rhagwelir y bydd y galw yn parhau. Mae'r cynllun Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yn parhau i gael ei hyrwyddo fel opsiwn i gael cymorth gyda chostau rhent aelwydydd. |
| CHC057T | Sicrhau bod yr hawl i gael budd-daliadau yn cyrraedd y nifer fwyaf o bobl mewn ffordd amserol drwy brosesu hawliadau’n effeithlon. | Tai a Chymunedau | ★ | Mae'r amseroedd targed ar gyfer prosesu hawliadau newydd a cheisiadau am newid amgylchiadau budd-dal tai a chynllun gostyngiadau Treth y Cyngor wedi’u cyrraedd. 17 diwrnod ar gyfer prosesu hawliadau newydd yn erbyn targed o 20 diwrnod a 5 diwrnod ar gyfer newid amgylchiadau yn erbyn targed o 8 diwrnod. Drwy brosesu ceisiadau a newidiadau i hawliadau yn effeithlon, mae cwsmeriaid yn derbyn digon o gymorth ariannol pan fydd ei angen arnynt, ac mae hyn yn cefnogi cwsmeriaid i leihau tlodi incwm. |
| CPE057T | Lleihau'r risg o dlodi tanwydd i breswylwyr drwy gynyddu effeithlonrwydd ynni cartrefi. | Lle a Thwf | ✔ | Hyd yma, mae 1,349 o fesurau wedi'u cyflawni yn erbyn targed blynyddol o 1,200. Mae’r mesur yn cynnwys gwahanol gydrannau a gyflwynir gan dîm y Prosiect Effeithlonrwydd Ynni Domestig. Yn gynwysedig yn yr ystadegyn mae gwaith a wnaed ar stoc tai preifat a chyhoeddus ar gyfer gwres adnewyddadwy, gwres canolog nwy, insiwleiddio llofftydd a cheudod a gosodiadau solar ffotofoltaidd. |
| CPE058T | Ymgysylltu, cefnogi ac atgyfeirio aelwydydd diamddiffyn i leihau tlodi tanwydd a gwella iechyd a lles. | Lle a Thwf | ✔ | Yn ystod y flwyddyn, cefnogwyd 454 o aelwydydd (roedd y targed ar gyfer 2024/25 yn 200). Mae'r mesur hwn yn cynnwys gwaith a wneir ar stoc tai preifat a chyhoeddus ar gyfer gwaith cyn ac ar ôl gosod, yn ogystal â chyngor, cymorth ac arweiniad ynni i'r cyhoedd i gynorthwyo gyda thlodi tanwydd. |

| Cod Gweithredu | Disgrifiad | Portffolio | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| CPE073T | Cydlynu dull amlasiantaeth i gefnogi busnesau i recriwtio pobl o grwpiau sydd dan anfantais. | Lle a Thwf | | Yn Chwarter 4, cynhaliodd y grŵp Digwyddiadau Swyddi, Sgiliau a Hyfforddiant, sef partneriaeth rhwng Cymunedau am Waith a Mwy, Canolfan Byd Gwaith a Chymru'n Gweithio, ffair swyddi yn Neuadd y Dref, y Fflint, a bu i 26 o gyflogwyr fynychu i hyrwyddo eu swyddi gweigion a daeth 457 o bobl draw i'r digwyddiad. Trefnwyd digwyddiad recriwtio i hyrwyddo'r swyddi gweigion newydd yn Theatr Clwyd. Yn dilyn y digwyddiad, fe ymgeisiodd 89 o bobl am y 3 swydd a oedd ar gael. Cafodd 36 o bobl eu cyfweld a llwyddodd 11 o bobl i gael swydd. Bydd hyn o gymorth parhaus i'r theatr, wrth i'w swyddi gwag gael eu rhyddhau yn nes at amser ei hail-agoriad yn y misoedd nesaf. |

## Diweddariadau Chwemisol ar y Cynllun Gweithredu

| Cod Gweithredu | Disgrifiad | Portffolio | COG | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SEP080T | Darparu cynlluniau cymorth Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r argyfwng costau byw. | Tai a Chymunedau | | **Prydau Ysgol am Ddim** Ar hyn o bryd, mae 8,302 o blant yn Sir y Fflint yn gymwys am Brydau Ysgol am Ddim. Mae'r cynllun hwn ar gyfer plant Ysgol Gynradd yn unig ac nid yw ar gael mewn Ysgolion Uwchradd. Ar hyn o bryd, mae 4,380 o blant yn gymwys am brydau ysgol am ddim ac 828 o blant yn gymwys trwy'r cynnig amddiffyn wrth bontio. **Grant Hanfodion Ysgol** Bu i'r cyfnod newydd o gyllid ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgol agor ar 01/07/24 a rhoddwyd 3,626 o grantiau sef cyfanswm o £480,325 ar y dyddiad hwnnw. Ar Chwarter 3 y flwyddyn academaidd 2024/25 (01/07/24 i 31/03/25), mae 4,488 o achosion wedi cael eu talu'n llwyddiannus, gan ddod i gyfanswm o £592,875. |
| SEP082T | Ar ôl gwerthuso, gwella a / neu ddatblygu adnoddau newydd i wella ansawdd a swm yr asesiadau effaith sy'n cael eu cwblhau. | Rhaglen Gyfalaf ac Asedau | | Mae grŵp Tasg a Gorffen wedi'i sefydlu i gydlynu datblygiad adnoddau er mwyn cefnogi gweithrediad Asesiadau Effaith integredig. |
| SEP083T | Parhau i ddatblygu'r fenter canolfannau clyd, mewn partneriaeth â sefydliadau a'r trydydd sector. | Tai a Chymunedau | | Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd yn Sir y Fflint wedi'u cynnwys yn y gadwyn o ganolfannau clyd a diogel erbyn hyn, a bu i ni weld cynnydd yn y galw. Er bod y mwyafrif o'r canolfannau clyd yn darparu bwyd, dim ond diodydd poeth roedd rhai ohonynt yn gallu eu cynnig. Darparwyd cyllid mewn 2 rownd, a sicrhawyd cefnogaeth ar gyfer 33 o ganolfannau clyd. Roedd holl lyfrgelloedd Gwella hefyd yn gweithredu fel canolfan glyd, gan gynnig diod boeth a sgwrs. Fel rhan o'r gefnogaeth, roedd cawl yn cael ei ddarparu i breswylwyr tai gwarchod yn wythnosol dros y misoedd oer. |

## Diweddariadau Chwarterol ar y Mesur

| Cod y Mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Portffolio | Gwirioneddol | Targed | Perfformiad (COG) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CGV007M | Nifer y cardiau sim sydd wedi cael eu rhoi i bobl mewn aelwydydd incwm isel. | Llywodraethu | 205 | 100 | Amherthnasol | Mae Sir y Fflint yn Cysylltu yn darparu cardiau SIM a thalebau i breswylwyr mewn tlodi digidol. Mewn partneriaeth â Sefydliad Good Things, mae'r cardiau SIM hanfodol hyn yn sicrhau bod modd i breswylwyr gynnal cysylltiad â gwaith digidol heddiw. Ers 1 Ebrill 2024, mae 205 o gardiau SIM wedi cael eu dosbarthu gan Sir y Fflint yn Cysylltu. |
| CHC001M | Nifer y diwrnodau calendr a gymerir, ar gyfartaledd, i brosesu hawliadau newydd ar gyfer budd-dal tai a gostyngiad yn nhreth y Cyngor. | Tai a Chymunedau | 17.00 | 20.00 | ★ | Mae'r amseroedd targed ar gyfer prosesu ceisiadau newydd am fudd-daliadau tai wedi'u cyrraedd yn 2024/25 - 17 diwrnod yn erbyn targed o 20 diwrnod. |
| CHC002M | Nifer y diwrnodau calendr a gymerir, ar gyfartaledd, i brosesu newid mewn amgylchiadau ar gyfer budd-dal tai a gostyngiad yn nhreth y Cyngor. | Tai a Chymunedau | 5.00 | 8.00 | ★ | Mae'r amseroedd targed ar gyfer prosesu ceisiadau am newid mewn amgylchiadau budd-dal tai wedi'u cyrraedd ar gyfer 2024/25:- 5 diwrnod ar gyfer newid amgylchiadau yn erbyn targed o 8 diwrnod. |
| CHC003M | Cyfanswm gwariant Taliad Disgresiwn at Gostau Tai. | Tai a Chymunedau | 100.00 | 100.00 | ★ | Mae lefel y cyllid a dderbyniwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi'i wario i gyd ar gyfer 2024/25 a bydd Sir y Fflint yn derbyn yr un faint ar gyfer 2025/26. Mae hyn yn dal i fod yn her, yn enwedig wrth i'r argyfwng costau byw barhau i effeithio ar aelwydydd. Mae'r cynllun Taliad Disgresiwn at Gostau Tai yn parhau i gael ei hyrwyddo'n llawn fel dewis ar gyfer cymorth gyda chostau rhent aelwydydd. |
| CHC005M | Nifer y preswylwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth "Prydau Symudol". | Tai a Chymunedau | 350.00 | 40.00 | ★ | Mae siopau symudol yn dal i ddarparu gwasanaeth mewn lleoliadau amrywiol ledled Sir y Fflint, gan ddarparu Prydau Parod, bagiau Popty Araf a bagiau Prydau Hawdd. |
| CHC006M | Nifer y preswylwyr a gefnogir gan y gwasanaeth prydau "Adre o'r Ysbyty". | Tai a Chymunedau | 12.00 | 150.00 | ▲ | Rydym bellach yn ystyried gwell ffyrdd o hyrwyddo a darparu'r gwasanaeth hwn i breswylwyr sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty. |
| CPE001M | Cyfanswm yr aelwydydd sy'n derbyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni. | Lle a Thwf | 1,349.00 | 1,200.00 | ★ | Mae'r mesur yn cynnwys gwahanol gydrannau a gyflwynir gan dîm y Prosiect Effeithlonrwydd Ynni Domestig.<br>Yn gynwysedig yn yr ystadegyn mae gwaith a wnaed ar stoc tai preifat a chyhoeddus ar gyfer gwres adnewyddadwy, gwres canolog nwy, insiwleiddio llofftydd a cheudod a gosodiadau solar ffotofoltaidd. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPE012M | Nifer yr unigolion sy'n mynd i gyflogaeth, addysg neu waith gwirfoddol. | Lle a Thwf | 97.00 | 60.00 | ★ | Yn ystod Chwarter 4, llwyddodd 22 o'r unigolion a gymerodd ran ar y rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy i gael swydd. Mae unigolion wedi llwyddo i gael swyddi yn y sectorau canlynol: Addysg (cymorthyddion addysgu), Sector Gofal, Adeiladu, Gweithgynhyrchu a Lletygarwch. |

| Cod y Mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Portffolio | Gwirioneddol | Targed | Perfformiad (COG) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPE013M | Nifer yr unigolion sy'n derbyn cefnogaeth. | Lle a Thwf | 255.00 | 240.00 | ★ | Yn ystod Chwarter 4, cofrestrodd 70 o unigolion ar y rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy. Atgyfeiriadau a geir drwy'r Ganolfan Byd Gwaith, Cymru'n Gweithio, Canolbwyntiau Cyflogaeth, Uned Symudol yr Adran Gwaith a Phensiynau, adrannau mewnol Cyngor Sir y Fflint a hunan-atgyfeiriadau. Darparwyd cymorth i unigolion gyda chreu cyfeiriadau e-bost, llunio CV, sicrhau hyfforddiant, chwilio am waith a sgiliau cyfweliad. |
| CPE014M | Darparu cyngor a chyfeirio aelwydydd diamddiffyn at gymorth. | Lle a Thwf | 116 | 50 | ★ | Mae'r mesur yn cynnwys gwaith a wneir ar stoc tai preifat a chyhoeddus ar gyfer gwaith cyn ac ar ôl gosod sy'n cael ei wneud ar fathau gwahanol o eiddo a mesurau posibl, yn ogystal â chyngor, cymorth ac arweiniad ar ynni i gynorthwyo gyda thlodi tanwydd a'r argyfwng ynni presennol yn gyffredinol. |

**Atodiad 2: Proffil defnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a defnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Plant fesul nodwedd warchodedig 2024/25 fel yr oedd ar 31 Mawrth 2025.**

**Proffil defnyddwyr y Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion yn ôl rhyw ac oedran**

| | Merched | | Dynion | | Anneuaidd | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedran | Rhif | % Holl ddefnyddwyr y Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion | Rhif | % Holl ddefnyddwyr y Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion | Rhif | % Holl ddefnyddwyr y Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion | Rhif | % Holl ddefnyddwyr y Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion |
| 18-64 | 847 | 17.5% | 721 | 14.9% | 11 | 0.02% | 1579 | 32.7% |
| 65-74 | 325 | 6.7% | 279 | 5.8% | 0 | | 604 | 12.5% |
| 75-84 | 753 | 15.6% | 545 | 11.3% | 0 | | 1298 | 26.8% |
| 85+ | 876 | 18.1% | 479 | 9.9% | 0 | | 1355 | 28.0% |
| Cyfanswm | 2801 | 57.9% | 2024 | 41.9% | 11 | 0.02% | 4836 | 100% |

**Proffil defnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn ôl rhyw**

| Rhyw | Nifer | % |
|---|---|---|
| Merched | 927 | 47% |
| Dynion | 1040 | 52% |
| Heb ei eni | 17 | 1% |
| Cyfanswm | 1984 | 100% |

**Proffil defnyddwyr y Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion yn ôl cefndir ethnig**

| Cefndir ethnig | Rhif | % |
|---|---|---|
| Cefndir Du a Lleiafrifoedd Ethnig | 34 | 1% |
| Gwyn Prydeinig | 2517 | 52% |
| Heb ei gael | 2285 | 47% |
| Cyfanswm | 4836 | 100% |

**Proffil defnyddwyr y Gwasanaeth Cymdeithasol Plant yn ôl cefndir ethnig**

| Cefndir ethnig | Rhif | % |
|---|---|---|
| Cefndir Du a Lleiafrifoedd Ethnig | 76 | 4% |
| Gwyn Prydeinig | 1370 | 69% |
| Heb ei gael | 81 | 27% |
| **Cyfanswm** | **1985** | **100%** |

**Proffil defnyddwyr y Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion yn ôl iaith**

| Iaith | Rhif | % holl ddefnyddwyr y gwasanaeth i oedolion |
|---|---|---|
| Bengaleg | 1 | 0.02% |
| Bwlgareg | 1 | 0.02% |
| Saesneg | 1914 | 39.58% |
| Hwngareg | 1 | 0.02% |
| Eidaleg | 3 | 0.06% |
| Cwrdaidd | 1 | 0.02% |
| Panjabi | 1 | 0.02% |
| Pashto/Pakhto | 2 | 0.04% |
| Pwyleg | 4 | 0.08% |
| Rwmaneg | 2 | 0.04% |
| Rwseg | 1 | 0.02% |
| Wcreineg | 1 | 0.02% |
| Cymraeg | 12 | 0.25% |
| Anhysbys | 2892 | 59.80% |
| **Cyfanswm** | **4836** | **100%** |

**Proffil defnyddwyr y Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion yn ôl crefydd**

| Crefydd | Rhif | % |
|---|---|---|
| Anffyddiwr | 2 | 0.04% |
| Bwdhaeth | 1 | 0.02% |
| Cristnogaeth | 632 | 13.07% |
| Hindŵaeth | 1 | 0.02% |
| Tystion Jehofa | 6 | 0.12% |
| Islam | 3 | 0.06% |
| Dim Crefydd | 112 | 2.40% |
| Arall | 32 | 0.66% |
| Pagan/Urdd y Derwyddon | 1 | 0.02% |
| Anhysbys | 4041 | 83.56% |
| **Cyfanswm** | **4836** | **100.00** |

**Atodiad 3 Proffil disgyblion ysgol**

**Proffil disgyblion ysgol yn ôl rhyw**

| Rhyw | Cynradd | | Uwchradd | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm yr holl ddisgyblion ysgol | % yr holl ddisgyblion ysgol | Cyfanswm yr holl ddisgyblion ysgol | % yr holl ddisgyblion ysgol |
| Dynion | 6460 | 29.31 | 4795 | 21.62 |
| Merched | 6177 | 27.86 | 4743 | 21.39 |
| **Cyfanswm** | **12637** | **56.99** | **9538** | **43.01** |

**Proffil disgyblion ysgol sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim yn ôl rhyw**

| Rhyw | Cynradd | | | Uwchradd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm yr holl ddisgyblion ysgol | Nifer y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim | % sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim | Cyfanswm yr holl ddisgyblion ysgol | Nifer y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim | % sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim |
| Dynion | 6460 | 1215 | 18.81 | 4795 | 870 | 18.14 |
| Merched | 6177 | 1207 | 19.54 | 4743 | 825 | 17.39 |
| **Cyfanswm** | **12637** | **2422** | **19.17** | **9538** | **1695** | **17.77** |

**Proffil disgyblion ysgol yn ôl cefndir ethnig a’r rhai hynny sy’n cael prydau ysgol am ddim**

| Cefndir ethnig | Cyfanswm yr holl ddisgyblion ysgol | % yr holl ddisgyblion ysgol | Nifer y rhai sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim | % sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim |
|---|---|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 19559 | 88.20 | 3703 | 89.94 |
| Arall | 2474 | 11.16 | 402 | 9.76 |
| Heb ei nodi / Gwrthodwyd | 142 | 0.64 | 12 | 0.29 |
| **Cyfanswm** | **22175** | | **4117** | |

Proffil disgyblion wedi'u gwahardd, yn ôl rhyw ac yn derbyn prydau ysgol am ddim

| | **Cyfanswm y disgyblion ysgol** | **% yr holl ddisgyblion ysgol** | **Nifer y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim** | **% sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim** |
|---|---|---|---|---|
| Disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol | 28 | 0.13 | 19 | 67.86 |
| Dynion | 23 | 0.10 | 16 | 69.57 |
| Merched | 5 | 0.02 | 3 | 60.00 |
| Disgyblion sydd wedi'u gwahardd dros dro | 918 | 4.14 | 391 | 42.59 |
| Dynion | 604 | 2.72 | 247 | 40.89 |
| Merched | 314 | 1.42 | 144 | 45.86 |

Proffil disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn ôl ethnigrwydd

| **Cefndir ethnig** | **Cyfanswm y disgyblion ysgol** | **% yr holl ddisgyblion ysgol** | **Cyfanswm y disgyblion ysgol** | **% yr holl ddisgyblion ysgol** |
|---|---|---|---|---|
| | **Disgyblion Sydd Wedi'u Gwahardd Yn Barhaol** | | **Disgyblion Sydd Wedi'u Gwahardd Dros Dro** | |
| Gwyn Prydeinig | 26 | 0.12 | 836 | 3.77 |
| Arall | 2 | 0.01 | 79 | 0.36 |
| Heb ei nodi / Gwrthodwyd | 0 | | 3 | 0.01 |
| **Cyfanswm** | **28** | **0.13** | **918** | **4.14** |

.